- Mae'r **Uned Triniaeth Ddydd** yn uned i gleifion allan 10 gwely wrth ymyl yr AOAU sy'n darparu ymyriadau lled-ddewisol a chefnogol ar yr un diwrnod gan gynnwys gosod tiwb nasogastrig a hyfforddiant/addysg, paracentesis, trallwysiadau gwaed a haearn, trwythiadau electrolytau, rheoli AKI ac ymchwiliadau tocsigrwydd IO fel profion Synacthen Byr a gweinyddu triniaethau tocsigrwydd IO fel methylprednisolone Mewnwythiennol (IV). Rheoli thrombosis aciwt sy'n gysylltiedig â chanser ac adolygiadau mynediad i IV.

Metrigau Allweddol o Effaith y Llwybr Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod

Ers mis Mawrth 2024 gwelwyd cyfanswm o 3,530 o gleifion Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, a chafodd 1,734 eu rhyddhau i osgoi derbyniadau, gan ddangos cyfradd brosesu ac effeithiolrwydd uchel. Roedd y gyfradd osgoi derbyniadau cyffredinol yn 49.1%, gan nodi bron i hanner y cleifion wnaeth osgoi derbyniadau i'r ysbyty trwy Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod.

Roedd y gyfradd brosesu cleifion misol yn amrywio o 150 i 230, gyda chyfraddau rhyddhau chwarterol rhwng 41% a 54%, gan ddangos perfformiad cryf cyson.

Mae gweithgaredd Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn lleihau derbyniadau cleifion mewnol, yn cefnogi gofal oncoleg amserol, ac yn gwella profiad cyffredinol cleifion ac effeithlonrwydd gwasanaeth.

Cyflwyno Therapiau Newydd Gan gynnwys Therapiau Datblygedig

Mae'r model clinigol ar gyfer darparu gofal yng Ngwasanaeth Canser Felindre yn cael ei ddiweddar'u'n barhaus i adlewyrchu twf a datblygiad therapïau oncoleg newydd gan gynnwys rôl genomeg a therapïau datblygedig. Mae mecanwaith cadarn ar waith ar gyfer sganio'r gorwel i sicrhau bod therapïau a gymeradwywyd gan NICE yn cael eu hystyried mewn modd amserol gan gysylltu â Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan a Rhaglen Therapiau Datblygedig Cymru. Mae partneriaeth agos ar waith ar draws y rhanbarth, ac yn benodol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, i sicrhau bod y llwybrau gofal aciwt ar draws safleoedd yn cael eu cryfhau lle bo angen i ddarparu ar gyfer therapïau oncoleg cymhleth. Oherwydd ein ffocws ymchwil gweithredol, mae llawer o'r llwybrau hyn yn cael eu sefydlu i ddechrau yng nghyd-destun cyflwyno treialon clinigol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno gan y GIG yn ddi-dor ar ôl cymeradwyaeth NICE.

Gwasanaeth Tocsigrwydd Imiwno-Oncoleg De-ddwyrain Cymru

Gan adeiladu ar lwyddiant atalyddion pwynt gwirio imiwnedd (ICIs), mae imiwnoleg canser ac imiwnotherapi bellach yn ehangu'n gyflym trwy ymchwil, treialon a chyflwyniadau cynnar. Mae angen cydnabyddiaeth gynnar ac ymyrraeth brydlon ar ddigwyddiadau niweidiol ICI, yn aml gan feddygon arbenigol, nyrsys a fferyllwyr sy'n gyfarwydd â sgîl-ffeithiau a gwenwyndra imiwnedd ICI. Mae gwasanaeth IO De-ddwyrain Cymru yn cefnogi cleifion sy'n profi digwyddiadau tocsigrwydd IO yn uniongyrchol ac mae'n datblygu'r sylfeini ar gyfer gwasanaethau diogel ac effeithiol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Gofal Holistaidd

Fel canolfan ganser arbenigol gyda gwasanaethau cleifion allanol, SACT, radiotherapi, a gwasanaethau triniaeth ddydd yn bennaf, mae Gwasanaeth Canser Felindre yn cefnogi ymdrechion yn llawn i wella gofal cyfannol i bobl yr effeithir arnynt gan ganser. Gofal Holistaidd

Fel canolfan ganser arbenigol gyda gwasanaethau cleifion allanol, SACT, radiotherapi, a gwasanaethau triniaeth ddydd yn bennaf, mae Gwasanaeth Canser Felindre yn cefnogi ymdrechion yn llawn i wella gofal holistaidd i bobl yr effeithir arnynt gan ganser.

- Rydym yn cydnabod yr anghenion holistaidd a hefyd y baich iechyd meddwl sylweddol y mae ein cleifion weithiau'n ei brofi ac rydym wedi ymrwmo i gryfhau adnabod anghenion, gwella llwybrau atgyfeirio, a chydweithio'n agos â darparwyr anghenion holistaidd a seicolegol.
- **Therapiau Cyflenwol:** mynediad at therapïau cyflenwol fel aromatherapi, tyliino, adweitheg, reiki, therapi sain a all wella llesiant a helpu cleifion i deimlo ar eu gorau.
- **Tîm Gofal Cefnogol:** yn cynnig cefnogaeth i gleifion a gofalwyr mewn nifer o feysydd gan gynnwys gwybodaeth, lles a budd-daliadau, trafodaethau gyda phlant, a threfnu cludiant.
- **Gwasanaethau Caplaniaeth:** yn cynnig mynediad at wasanaeth caplaniaeth aml-ffydd i gefnogi cleifion gyda'u hanghenion ysbrydol.

Gofal Lliniarol

Mae gwasanaethau Gofal Lliniarol wedi'u rhannu'n rhai lleol (penodol i safle Canolfan Ganser Felindre) a rhanbarthol, gyda staff clinigol a gyflogir gan Felindre yn gweithio yn Hosbis y Ddinas, lleoliadau cleifion mewnol a chymunedol Hosbis Marie Curie, a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae'r tîm Gofal Lliniarol Arbenigol yng Nghanolfan Ganser Felindre yn cynnwys ymgynghorwyr meddygaeth liniarol, meddygon preswyl arbenigol, meddygon arbenigol a chymrodoriaeth ac arbenigwyr nyrsio clinigol/Arbenigwyr Nyrsio Uwch.

Gellir atgyfeirio cleifion mewnol, cleifion allanol, a'r rhai sy'n dod i'r uned asesu at y tîm gofal lliniarol i gael cyngor arbenigol, pwrpasol a mewnbwn clinigol. Mae staff yn

cydweithio â'r timau oncoleg i ddarparu'r gofal gorau i ddiwallu anghenion cleifion ac yn cysylltu â thimau gofal lliniarol cymunedol a darparwyr gofal lliniarol hosbis/ysbyty. Mae'r tîm hefyd yn darparu addysg ffurfiol ac anffurfiol i fyfyrwyr, staff clinigol a staff ategol. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr meddygol, nyrsio, parafeddygol a seicoleg, a chlinigwyr ôl-raddedig ym mhob cam. Mae hyn yn sicrhau cyfathrebu ehangach a darpariaeth gofal lliniarol i bawb sy'n ymwneud â chleifion a'u perthnasau agosaf. Mae yna wasanaeth poen cronig a Thîm Amlddisgyblaethol poen ymyriadol. Mae'r gwasanaeth gofal lliniarol yn cysylltu â'r gwasanaeth gofal cefnogol, sy'n cynnwys gwasanaethau seicolegol lefel 1-4 pwrpasol.

Rheoli Meddyginiaethau

Mae swyddogaethau Rheoli Meddyginiaethau yn cael eu goruchwyllo gan y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau, sy'n cyflawni ei ddyletswyddau drwy gyfres o is-grwpiau:

- Grŵp Diogelwch Meddyginiaethau
- Grŵp Nwyon Meddygol
- Grŵp Goruchwyllo Cyffuriau Rheoledig
- Grŵp Meddyginiaethau yn y Cartref
- Grŵp Canser a Thrombosis a Gafwyd yn yr Ysbyty
- Grŵp Ymgynghorol IPFR VCC
- Grŵp Gwrthficrobaidd

Mae'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau yn adrodd i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y Cyfarwyddiaeth Therapïau Systemig sydd newydd ei sefydlu ac ymlaen i Fyrddau Adrannol a Byrddau'r Ymddiriedolaeth yn ôl yr angen.

Bydd sganio'r gorwel a gweithredu meddyginiaethau gwrth-ganser sydd newydd eu cymeradwyo gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn cynnwys trafodaethau ar effaith ar wasanaethau i gefnogi gweithrediad cyflym.

Newid Strwythur Gwasanaeth Canser Felindre a Meysydd Datblygu

I gydnabod yr angen i wella, ac yn dilyn ymarferion meincnodi gyda chanolfannau canser eraill, cynigiodd y tîm Gweithredol ailstrwythuro Gwasanaeth Canser Felindre. Nod hyn oedd :

- Cryfhau'r ddarpariaeth glinigol.
- Creu strwythur rheoli sy'n sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd am ddarparu llwybrau triniaeth a ddarperir.
- Gwireddu manteision sefydlu strwythur Triwriaeth a sicrhau bod gan y llais clinigol gyfrwng ar bob lefel o Wasanaeth Canser Felindre.

O ganlyniad i hyn, recriwtiwyd Strwythur Adrannol newydd a dechreuwyd ei weithio ym mis Mehefin 2025, gyda'r recriwtio dilynol i'r pedair Cyfarwyddiaeth glinigol ar waith yn llawn erbyn mis Rhagfyr 2025.

Mae'r newid hwn wedi cefnogi adolygiad o'r trefniadau llywodraethiant o ran darpariaeth glinigol a gweithredol a datblygu capasiti a gallu ym mhob maes fel rhan o raglen gwella 'ystyried yr hanfodion' gyda ffocws newydd ar ddull 'sy'n cael ei yrru gan ddata' o wella darpariaeth gwasanaethau, ochr yn ochr â rhaglenni datblygu cysylltiedig ar gyfer y timau.

Wrth baratoi ar gyfer symud i Ganolfan Ganser newydd Felindre, mae rhaglen waith wedi'i datblygu i drawsnewid modelau darparu gwasanaethau yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal amserol, diogel ac effeithiol.

Y prif feysydd ffocws yw fel a ganlyn:

- **SACT** - Mynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol (a'r cynnydd a ragwelir) mewn atgyfeiriadau ar gyfer cleifion sydd angen triniaethau SACT drwy ymestyn gwasanaethau nes at y cartref, ehangu apwyntiadau rhithwir a chyflwyno llinell gymorth 24/7 a gwasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i atal derbyniadau i ardaloedd y Bwrdd Iechyd a chleifion mewnol y gellid eu rheoli gyda thriniaeth dydd.
- **Radiotherapi** – Datblygu'r gwasanaeth yn Uned Radiotherapi Felindre yn Nevill Hall, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, i gefnogi cleifion i dderbyn triniaeth yn nes at y cartref.

3. Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn chwarae rhan arbenigol sylfaenol ac unigryw wrth ddarparu'r gwasanaethau canlynol i Gymru:

- Darpariaeth **gyfanwerthu** meddyginiaethau sy'n deillio o blasma a meddyginiaethau ailgyfunol ar gyfer Byrddau Iechyd ledled Cymru.
- **Darparu ystod o wasanaethau cyfeirio cleifion diagnostig** ar gyfer Byrddau Iechyd ledled Cymru, yn enwedig sgrinio a sefydlu teipiau cynenedigol a chyngor ynghylch gwrthgyrff.
- **Darparu gwasanaethau trawsblannu**, sefydlu teipiau rhoddwyr a derbynwyr bôn-gelloedd ac organau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gwasanaeth asesu ansawdd allanol rhyngwladol ar gyfer Histogydnawsedd ac Imiwnogenetig (NEQAS), recriwtio gwirfoddolwyr i Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, canolfan gasglu a mewforiwr ac allforiwr bôn-gelloedd.
- **Darparu gwasanaethau trallwysiadau gwaed**, cynhyrchu cydrannau gwaed, profi a dosbarthu i GIG Cymru.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd yn chwarae rhan weithredol ledled y DU ar Fforwm Gwasanaethau Gwaed y DU, is-grwpiau'r Cyd-bwyllgor Cynghori Proffesiynol a Pheryglon Diogelwch Trallwysiadau. Yn ogystal, cefnogir nifer o rwydweithiau proffesiynol yn y DU i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn rhannu arfer da ac i alinio safonau ar gyfer gwaed ar lefel y DU.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru, ochr yn ochr â gwasanaethau eraill y DU, yn aelod gweithredol o Gynghrair Gwaed Ewrop ac yn eistedd ar nifer o ffrydiau gwaith gwyddonol, meddygol, cadwyn gyflenwi a rhoddwyr, gan ddarparu arweinyddiaeth system ar yr heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau gwaed yn fyd-eang.

Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu'n weithredol at waith UK Aligned Registries a UK Stem Cell Forum i rannu arfer gorau, aros ar flaen y gad o ran datblygiadau gwyddonol, a gwella canlyniadau cleifion mewn trawsblannu bôn-gelloedd.


Perfformiad

Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru record gref o ran perfformiad, ac mae penawdau allweddol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- **Dal stoc gref o gelloedd coch** ar draws pob prif grŵp gwaed gan osgoi'r angen i rybuddio ysbytai neu fewnforio o wasanaethau eraill yn y DU o dan ein cytundeb cymorth cydfuddiannol. Mewn gwirionedd, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi allforio ar nifer o achlysuron i gefnogi Gwasanaethau Gwaed Lloegr a'r Alban.


- **Gwastraff cyfyngedig** o gelloedd gwaed coch yn cynrychioli aliniad agos o gyflenwad a galw ledled Cymru.
- **Cynnydd eithriadol wrth recriwtio gwirfoddolwyr Bôn-gelloedd** i Gofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, gan ragori ar ein targed blynyddol bellach, gyda ffocws penodol ar ein cyrhaeddiad amrywiaeth ethnig o ystyried bod hwn yn faes lle mae galw heb ei ddiwallu uwch.
- Mae **trosiant canlyniadau cynenedigol** wedi rhagori ar dargedau perfformiad yn gyson.

Galw Clinigol am Gelloedd Gwaed Coch a Gyflawnwyd (% a gynhyrchwyd i'r % a ddosbarthwyd)



Noder: Mae allbynnau uwchlaw 100% yn adeiladu stoc; mae gostyngiadau byr ychydig o dan 100% yn tynnu ar y byffer honno fel bod ysbytai yn parhau i gael eu cyflenwi'n llawn a bod lefelau stoc yn parhau i fod yn gyfbwys.

Sefydlogrwydd Stoc Celloedd Gwaed Coch Grwpiau O, A a B+ (lefel stoc islaw 3 diwrnod)




Gostyngodd lefelau stoc Celloedd Coch islaw'r trothwy cyflenwad 3 diwrnod ar dri achlysur ym mis Medi ar gyfer celloedd gwaed coch O-negatif.

Roedd hyn yn bennaf oherwydd cyflwyno System Rheoli Gwybodaeth Labordy ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a gynyddodd ddaliad stoc yr ysbyty.

Rheolwyd y sefyllfa'n weithredol drwy ein cyfarfodydd gwydnwch dyddiol a gweithrediadau arferol. Noder nad effeithiodd hyn ar unrhyw adeg ar ddarparu gwaed i unrhyw ysbytai yn ystod y cyfnod hwn.


Mae'n werth nodi nad oes unrhyw unedau celloedd coch wedi'u caffael o wasanaethau gwaed eraill yn y DU ers Awst 2024.

Galw Clinigol am Blatennau a Gyflawnwyd (% a gynhyrchwyd i'r % a ddosbarthwyd)




Noder: Mae allbynnau uwchlaw 100% yn helpu i adeiladu stoc, ond mae rheoli platennau yn arbennig o heriol oherwydd eu hoes sillf fer o ddim ond 7 diwrnod a'r cyfeintiau llawer llai. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ei gwneud hi'n sylweddol anoddach cynnal gwydnwch a rheoli'r cyflenwad o'i gymharu â chydrrannau gwaed eraill.


Celloedd Gwaed Coch (Oedolion) y mae eu hoes wedi dod i ben



Gwirfoddolwyr Bôn-gelloedd Newydd




Amseroedd Trosiant - Cynnedigol (3 diwrnod gwaith)



Meysydd ar gyfer Perfformiad Gwell

Mae'r canlynol yn cynrychioli lle mae'r gwasanaeth yn gwneud ymdrechion ar y cyd i wella ei safle perfformiad.


Amseroedd Trosiant - Trosiant Seroleg Cyfeirio Celloedd Coch (5 diwrnod gwaith)



Er na chyflawnwyd y targed perfformiad yn ystod y ddau chwarter diwethaf, mae'r tîm wedi cwblhau menter gwella gwasanaeth gynhwysfawr yn ddiweddar gyda rhaglen LEAN Toyota a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae manteision hyn wedi dangos gwelliant amlwg yn chwarter 3 ymhell uwchlaw'r targed, er gwaethaf cyfyngiadau staffio a digidol sylfaenol yn y maes hwn.

Rhoddwyr Gwaed Cyflawn Newydd (Adroddiadau Chwarterol)




Mae blaenoriaethu grwpiau gwaed hysbys a chanolbwyntio ar ymgysylltiad rhoddwyr presennol i gydbwysu'r cyflenwad a'r galw yn lleihau argaeledd apwyntiadau a chyfleoedd i recriwtio rhoddwyr newydd.

Mae nifer o gamau gweithredu cytunedig i liniaru'r risg hon ar y gweill ac maent yn cynnwys:

- Mwy o gyfleoedd i gael apwyntiadau mewn lleoliadau sy'n ddelfrydol ar gyfer rhoddwyr newydd (ysgolion, busnesau, lleoliadau addysgol) – dull a dreialwyd yn ddiweddar ac a brofwyd yn llwyddiannus yng ngogledd-orllewin Cymru.
- Darparu mwy o wydnwch mewn timau rhoi gwaed i ddiogelu capasiti apwyntiadau.
- Trosi llwyddiant recriwtiaid gwirfoddolwyr bôn-gelloedd yn rhoddwyr gwaed.
- Archwilio astudiaeth ymchwil ar recriwtio a chadw rhoddwyr a'u heffaith ar gynnal sylfaen rhoddwyr sefydlog a digonol.
- Rhannu mewnwelediadau ymddygiadol a llwyddiannau ymgyrchoedd ar lefel Ewropeaidd, gan gydnabod bod pob gwasanaeth gwaed yn rhyngwladol yn wynebu heriau o ran recriwtio a chadw rhoddwyr newydd.

Cynhwysiant ar draws Paneli Gwirfoddolwyr Gwaed Cyflawn a Bôn-gelloedd




Mae Cyfrifiad y DU ar gyfer Cymru yn dangos poblogaeth ethnig gyfredol o 6.2%. Mae'n hanfodol bod paneli Gwasanaeth Gwaed Cymru ar gyfer rhoi gwaed a recriwtio bôn-gelloedd yn gynrychioliadol o amrywiaeth y genedl ac felly mae'n recriwtio ac yn annog y cymunedau hyn yn weithredol i roi/gwirfoddoli fel rhan o'i strategaeth hirdymor.

Mae'r graff uchod yn ceisio dangos maint yr her hon i'r gwasanaeth. Mae hwn yn uchelgais hirdymor a fydd yn cael ei gyflawni dros amser:

- Panel Rhoddwyr Gwaed Cyflawn: Yn chwarter 2, ni wnaeth 2.32% o'r panel nodi eu hunain fel 'Gwyn' (arhosodd yr un peth).
- Gwirfoddolwyr Bôn-gelloedd: Yn chwarter 2, ni wnaeth 4.2% o'r gofrestr nodi eu hunain fel 'Gwyn' (cynnydd o 1%).

Recriwtio Rhoddwyr o Gefndiroedd Ethnig




Mae'r graff uchod yn dangos yr ymdrechion cydunol y mae'r tîm yn eu gwneud i recriwtio rhoddwyr o wahanol ethnigrwydd yn weithredol, o ran rhoi gwaed ac i'n cofrestr rhoddwyr bôn-gelloedd dros y chwe mis diwethaf. Mae ymdrechion cydunol mewn nifer o feysydd gan gynnwys:

- Gwella ein rhaglen addysgol ar gyfer ysgolion a cholegau
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol penodol ar ffurf sgysiau a stondinau hyrwyddo i wella ymwybyddiaeth o roi gwaed a bôn-gelloedd.

- Ymgyrchoedd cyfryngau digidol wedi'u targedu gyda chleifion neu berthnasau o gymunedau ethnig yr effeithir arnynt, er enghraifft grwpiau cryman-gelloedd a thalasemia.
- Recriwtio llysgenhadon o leiafrifoedd ethnig.
- Gwrando a dysgu am wahanol ddulliau ar gyfer cymunedau amrywiol drwy'r Gynghair Trawsblaniadau Cenedlaethol o Bobl Ddu, Asiaidd, Hil Gymysg a Lleiafrifoedd Ethnig (NBTA), clymblaid o sefydliadau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o drawsblannu gwaed, organau a bôn-gelloedd.

Platennau y mae eu hoes wedi dod i ben



Mae platennau y mae eu hoes wedi dod i ben yn dangos amrywioldeb drwy gydol 2025, oherwydd amrywioldeb yn y galw mewn cyfeintiau llai ac oes silff fer, a waethygir yn aml gan oes silff fer ar gyfer y cynhyrchion.

Fodd bynnag, mae'r misoedd diwethaf yn dangos gwelliant, gyda'r ffigurau'n gostwng i 5–6% ym mis Medi a mis Hydref 2025, gan adlewyrchu cynnydd cadarnhaol yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol. Cefnogir y gwelliant hwn gan lansiad yr Offeryn Cynllunio Platennau newydd fel rhan o'r Cynllun Gweithredol Platennau.

Meincnodi

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cymryd rhan ym mhroses feincnodi Cynghair Gwaed Ewrop bob 12 mis, gan ein galluogi i gymharu perfformiad yn erbyn dros 20 o wasanaethau gwaed Ewropeaidd, nodi arferion gorau, a gyrru gwelliant parhaus.

Mae hyn yn helpu i sicrhau mwy o effeithlonrwydd, ansawdd a chydymffurfiaeth â gwasanaethau rhyngwladol. Mae meysydd ffocws y gwasanaeth yn cynnwys lefelau gwastraff is, cynhyrchiant cynyddol lle bo modd, a deall tuddiadau galw rhyngwladol.

Datblygu Gwasanaethau

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi gwneud cynnydd cryf o ran cyflawni ei amcanion strategol, gyda rhaglenni allweddol wedi'u halinio â menter Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae cerrig milltir

arwyddocaol yn cynnwys hyrwyddo prosiectau moderneiddio fel ailgaffael System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed a'r Rhaglen Plasma ar gyfer Meddyginiaethau, cryfhau cynllunio'r gweithlu, ac ymgorffori strwythurau llywodraethu i gefnogi blaenoriaethu a chynllunio capasiti. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu ymrwymiad clir i foderneiddio, gwydnwch gweithredol, a chanlyniadau gwasanaeth gwell i roddwyr a chleifion.

Mae cynnydd yn erbyn adran Gwasanaeth Gwaed Cymru o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael effaith amlwg ar yrru diwylliant o welliant parhaus ar draws y sefydliad. Drwy fentrau fel y Cynllun Gweithredu Gwella Gwasanaeth tair blynedd a'r rhaglen Gwella 5 Munud, mae timau wedi cyflawni manteision mesuradwy o ran effeithlonrwydd, arbedion cost a chynaliadwyedd amgylcheddol. Er enghraifft, mae newidiadau diweddar i brosesau wedi lleihau gwastraff ac wedi arbed amser ac adnoddau, tra bod cyflwyno'r Porth Gwella Gwasanaeth electronig wedi galluogi ymgysylltiad staff a pherchnogaeth dros syniadau gwella. Mae'r ymdrechion hyn wedi cryfhau gwydnwch gweithredol, gwella profiad rhoddwyr a chleifion, a gosod Gwasanaeth Gwaed Cymru fel arweinydd o ran arfer gorau, fel y dangosir gan gydnabyddiaeth allanol mewn gwobrau ansawdd a chydweithrediad llwyddiannus â phartneriaid fel Toyota ar fethodoleg Lean.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi blaenoriaethu gwydnwch y gadwyn gyflenwi gwaed fel ffocws strategol hollbwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu Fframwaith Sicrwydd Gweithredol i ddarparu goruchwyliaeth gadarn a sicrwydd ar draws holl weithgareddau'r gadwyn gyflenwi. Mae ein Grŵp Gwydnwch yn cyfarfod yn ddyddiol i fonitro ac ymdrin â heriau gweithredol tymor byr, gan sicrhau parhad cyflenwad ac ymateb cyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r dull hwn wedi cyflawni canlyniadau pendant: rydym wedi cynnal 12 mis o sefydlogrwydd stoc ac wedi cefnogi gwasanaethau Lloegr a'r Alban gyda stociau gwaed trwy ein cytundeb cymorth cydfuddiannol Fforwm y DU.

I ategu hyn, mae'r Grŵp Rheoli Cadwyn Cyflenwi Gwaed yn cymryd safbwynt tymor canolig a hirdymor, gan sbarduno cynllunio strategol ac ymgorffori mentrau ymchwil perthnasol i gryfhau gwydnwch a chynaliadwyedd. Mae'r mesurau hyn, ochr yn ochr â phartneriaethau cydweithredol a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gosod Gwasanaeth Gwaed Cymru mewn sefyllfa dda i gynnal cadwyn gyflenwi ddiogel ac addasadwy sy'n cefnogi gofal cleifion nawr ac i'r dyfodol. Mae enghreifftiau ymarferol yn cynnwys ehangu ein rhaglen addysgol gydag ysgolion i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o roddwyr, sicrhau ymwybyddiaeth gynnar o bwysigrwydd rhoi gwaed, a chynyddu ein hól troed casglu o fewn cymunedau ethnig i wella amrywiaeth rhoddwyr ac adlewyrchu'n well y boblogaeth y mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ei gwasanaethu.

Newid yn y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn newid i fodel clinig rhoi gwaed dan arweiniad clinigol i wella diogelwch rhoddwyr, gwella ansawdd a safoni arferion ar draws pob safle. Mae'r newid hwn yn cyflwyno arweinyddiaeth dan arweiniad nyrsys o fewn ein

timau rhoi gwaed, wedi'i chefnogi gan rolau a chyfrifoldebau diwygiedig, gwell gallu ymhlith y gweithlu, a phrosesau symlach. Nod y model yw darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y person, lleihau amrywiad, a chryfhau goruchwyliaeth glinigol, gan sicrhau dull modern sy'n diwallu gofynion gwasanaeth y dyfodol. Mae'r broses weithredu yn cael ei chyflawni drwy'r Broses Newid Sefydliadol, gydag ymgynghoriadau cenedlaethol yn cynnwys staff i sicrhau ymgysylltiad a thryloywder drwy gydol y cyfnod pontio.

Mae cyflwyno teithiau rhoi gwaed symudol dros nos yng Ngogledd Cymru wedi ehangu hygyrchedd y gwasanaeth i'n cymunedau ledled Cymru, yn enwedig yng nghanol Powys, gan roi mwy o gyfleoedd i boblogaethau lleol gymryd rhan a chael mynediad at wasanaethau rhoi gwaed.

Yr Heriau sy'n wynebu darparu Gwasanaethau Gwaed effeithiol

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn wynebu amrywiaeth o heriau wrth ddarparu gwasanaeth gwaed effeithiol:

- Mae recriwtio a chadw sylfaen rhoddwyr amrywiol yn gynyddol heriol oherwydd demograffeg sy'n newid a gofynion cystadleuol ar amser pobl, tra bod cynnal stociau gwaed gwydn yn gofyn am reoli cadwyn gyflenwi ystwyth a chynllunio wrth gefn cadarn.
- Mae capasiti a llesiant y gweithlu yn flaenoriaethau parhaus, yn enwedig mewn rolau arbenigol, ochr yn ochr â'r angen i integreiddio systemau digidol newydd â seilwaith etifeddol i wella effeithlonrwydd a chysylltedd data.
- Mae sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn cyfyngiadau ariannol tynn i gyd yn gofyn am arloesi parhaus, allgymorth wedi'i dargedu, a chydweithio cryf ar draws y system iechyd.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy gydweithio, arloesi parhaus, a ffocws parhaus ar ansawdd, diogelwch a thegwch i roddwyr a chleifion ledled Cymru.

Cynllun Gwasanaeth Gwaed Cymru ar gyfer Gwella – Prif Gyflawniadau

- Gwasanaethau sydd wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol sy'n cofleidio arloesi ac yn diwallu anghenion esblygol GIG Cymru.
- Canlyniadau gwell i gleifion drwy brofi a chyflwyno therapïau datblygedig yn gyflymach ac yn fwy cywir, a rhyngweithrediad â systemau digidol cenedlaethol.
- Gwydnwch yn y cyflenwad o waed a bôn-gelloedd, gan sicrhau sefydlogrwydd i gleifion ledled Cymru.

- Profiad ac ymgysylltiad rhoddwyr gwell, wedi'i gefnogi gan offer digidol a modelau casglu hyblyg.
- Seilwaith a labordai wedi'u moderneiddio i gefnogi gwyddoniaeth arloesol a galw cynyddol.
- Systemau digidol integredig ar gyfer gweithrediadau di-dor a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.
- Capasiti estynedig ar gyfer plasma ar gyfer meddyginiaethau a gwasanaethau trawsblannu, gan gryfhau'r ddarpariaeth genedlaethol.

Gwersi a Ddysgwyd o'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Mae gwersi i'w dysgu wedi'u nodi'n glir gan gadeirydd yr ymchwiliad, Syr Brian Langstaff. Sef, mai diogelwch cleifion yw'r egwyddor arweiniol. Mae angen i wasanaethau ddeall risg yn well; a lleihau oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae gwersi eraill yn cynnwys cwestiynu'r status quo; gwella cyfathrebu a chydysniad rhwng meddyg a chlaf sydd ill dau yn gofyn am onestrwydd. Mae gwella gonestrwydd a thryloywder rhwng y llywodraeth a'r dinesydd; gwella cadw cofnodion meddygol; ac y dylid osgoi hunanfodlonrwydd ym maes iechyd y cyhoedd hefyd wedi'u nodi fel gwersi allweddol.

O safbwynt Gwasanaeth Gwaed Cymru a safbwynt y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed y mae'r gwasanaeth yn ei gefnogi ar lefel arweinyddiaeth system, mae pedair thema glir wedi dod i'r amlwg sy'n gofyn am gamau gweithredu mewn perthynas â gwell arferion trallwysu gwaed ac maent yn cynnwys:

- Cysylltedd Digidol
- Staffio
- Addysg
- Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Cysylltedd Digidol

Caniatáu i staff yn y GIG weld cofnodion trallwysyadau gwaed cleifion er mwyn galluogi diogelwch:

- Gweithredu'n llawn y System Rheoli Gwybodaeth Labordy 2 (LIMS2) neu gyfwerth
- Gweithredu'n llawn feddalwedd a chaledwedd olrhain wrth ochr y gwely fel estyniad o LIMS2.
- Cysylltu data cofnodion trallwysyadau ar ddiagnosis, ymyriadau a chofnodion patholeg.

- Ffurfweddu meddalwedd meddyginiaethau i sicrhau y gellir cysylltu data diagnosis, patholeg a thrallwysiadau â meddyginiaeth gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i asid tranecsamig a amlygwyd yn yr argymhellion.
- Dylai'r ffurfweddiad uchod ei gwneud hi'n syml i archwilio'r uchod. Roedd geiriad penodol yr argymhellion yn cynnwys "Cyfarwyddwyr meddygol yn adrodd ar raddfa ei ddefnydd i fyrddau a phrif weithredwr eu Hymddiriedolaeth" (gan gyfeirio at asid tranecsamig).

Staffio

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed ochr yn ochr â chydweithwyr yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn datblygu safonau ar gyfer lefelau staffio mewn labordai trallwysiadau. Disgwylir i sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru gydymffurfio â'r safonau hyn hefyd.

Addysg

Dylai hyfforddiant mewn trallwysiad gwaed fod yn orfodol i bob aelod o staff sy'n ymwneud â'r broses trallwysiadau gwaed, gan gynnwys staff gwyddonol, porthorion, nyrsio, bydwreigiaeth a meddygol. Dylai'r hyfforddiant gyfeirio'n benodol at ganfyddiadau'r ymchwiliad.

Mae is-bwyllgor Addysg y Grŵp Goruchwylio Cenedlaethol ar Iechyd Gwaed, sydd â chynrychiolaeth o Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn mireinio pecynnau presennol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag argymhellion y Gwasanaeth Gwaed Heintiedig. Mae aelodau'r is-bwyllgor hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws holl wasanaethau gwaed y DU i sicrhau'r cysondeb a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl.

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dylai pob sefydliad GIG ledled y DU gael mecanwaith ar waith ar gyfer gweithredu safonau a gynhyrchwyd gan gynllun hemowlyiadwriaeth Peryglon Difrifol Trallwysiadau ac argymhellion Adroddiadau ar Beryglon Difrifol Trallwysiadau, y dylid eu gorfodi'n broffesiynol, ac ar gyfer monitro'r gweithrediad o'r fath.

Dylid adrodd i'r Bwrdd ar berfformiad meincnodi mewn trallwysiadau a chydymffurfiaeth ag argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig fel y disgrifir uchod drwy Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch / Llywodraethu Clinigol y sefydliad neu gyfwerth.

Y camau nesaf

Bydd y gwelliannau hyn gyda'i gilydd yn cefnogi ein cynnydd o ran cyflawni argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Mae cydweithwyr Peryglon Difrifol Trallwysiadau yn cyfrannu ar lefel y DU at ffrydiau gwaith yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig ac yn gweithio'n agos gyda Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru ar grŵp goruchwylio'r Ymchwiliad i Waed Heintiedig i alluogi'r argymhellion a'r themâu allweddol hyn i ymgorffori arfer cyson a thryloyw a gwella diogelwch cleifion ar gyfer trallwysiadau.

Plasma ar gyfer Meddyginiaethau

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflenwi plasma a gesglir gan roddwyr yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu meddyginiaethau sy'n deillio o plasma. Derbyniwyd cymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Awst 2025 ynghyd â chyllid refeniw i dalu costau cychwyn. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi:

- Cyflwyno'r cais Ffeil Meistr Plasma sy'n ofynnol gan y Ffracsiynydd. Bydd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Rheoleiddiwr, ac mae'r Ffracsiynydd yn disgwyl derbyn diweddariad i'w Awdurdodiad Marchnata yn haf 2026.
- Wedi derbyn cymeradwyaeth gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar gyfer estyniad i'w Awdurdodiad Sefydliad Gwaed sy'n caniatáu casglu a phrosesu Plasma ar gyfer Meddyginiaethau.
- Cwblhawyd dilysu pecynnau Casglu Gwaed newydd a fydd yn caniatáu hidlo plasma i fodloni'r fanyleb ar gyfer meddyginiaethau.
- Cwblhawyd y gwaith o gaffael a dilysu plattform sgrinio firysau newydd gan gynnwys y canfod firysau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer plasma ar gyfer meddyginiaethau.
- Comisiynwyd cyfleusterau storio plasma wedi'i rewi ychwanegol i ddarparu ar gyfer y cyfaint cynyddol o plasma wedi'i rewi i'w gasglu a'i storio.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2026, y ffocws fydd cwblhau'r broses o alinio System Rheoli Ansawdd Gwasanaeth Gwaed Cymru â'r Ffracsiynwyr o dan Gytundeb Technegol Ansawdd ffurfiol cyn yr archwiliad cadarnhaol a gynlluniwyd ar gyfer diwedd mis Chwefror.

Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i ddechrau cyflenwi plasma i'r Ffracsiynydd o fis Medi 2026 ymlaen gyda'r cynhyrchion ffracsiynedig cyntaf ar gael i gleifion Cymru yn ail hanner 2026.

Mae'r gwasanaeth yn dymuno symud i Gam 2 y prosiect drwy gynyddu'r ddarpariaeth plasma drwy recriwtio rhoddwyr platennau, gan alinio Cymru â'r model cyflenwi a gyflwynwyd gan wasanaethau gwaed yr Alban a Lloegr i wella diogelwch a chynyddu gwydnwch y gadwyn gyflenwi plasma.

Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Comisiynwyr i alluogi cyflawni'r prosiect hwn sy'n seiliedig ar werth.


4. Datblygu Gwasanaethau ar gyfer y Dyfodol

4.1 Portffolio Newid yr Ymddiriedolaeth

Dros y chwe mis diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithredu Rheoli Portffolio yn raddol ar draws y sefydliad. Nod gwneud hynny yw cyflawni trefniadau Rheoli Portffolio effeithiol sy'n optimeiddio cyflawniad drwy sefydlu a blaenoriaethu llinell sylfaen o weithgareddau trawsnewidiol, gan roi rheolaethau ar waith ar draws yr Ymddiriedolaeth mewn meysydd fel adrodd, amserlennu a rheoli risg.

Prif Gyflawniadau

- **Bwrdd Portffolio** - Mae Bwrdd Portffolio wedi'i sefydlu i lunio datblygiad parhaus y dull rheoli Portffolio ac i olrhain cynnydd ac uwchgyfeirio. Mae hyn yn rhan annatod o'r Bwrdd Rheoli Gweithredol.
- **Sylfaen gweithgareddau newid** - Mae safbwynt sylfaenol wedi'i lunio ar gyfer newidiadau allweddol sy'n cael eu harwain ar draws y sefydliad. Mae'r rhain yn cael eu hasesu i benderfynu ar raddfa rheolaethau'r prosiect a'r trefniadau llywodraethu.
- **Blaenoriaethu Portffolio**- Datblygwyd fframwaith Blaenoriaethu Portffolio drafft, yn seiliedig ar Asesiad Effaith Ansawdd, ac fe'i treialwyd ar brosiectau mwy'r Ymddiriedolaeth gyda'r bwriad o'i gyflwyno i bob gweithgaredd newid.
- **Adrodd ar y Dangosfwrdd** - Datblygwyd Dangosfyrddau Power BI amlbwrpas a byw i adrodd ac olrhain cynnydd yn erbyn rhaglenni, prosiectau a chyflawniadau IMTP mawr.



- **Cymuned Ymarfer ac Aelodaeth HPCA** - Mae Cymuned Ymarfer wedi'i sefydlu i hyrwyddo datblygiad proffesiynol ar gyfer staff Portffolio, Rhaglen

a Phrosiect. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi dod yn aelod corfforaethol o'r Gymdeithas Prosiectau a Newid Gofal Iechyd (HPCA). Cynhelir cyfarfod Busnes Portffolio misol hefyd i lunio'r portffolio.

4.2 Ymchwil a Datblygu

Mae Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn swyddogaeth graidd i'r Ymddiriedolaeth ac yn alluogwr hanfodol ar gyfer gwasanaethau arbenigol o ansawdd uchel, diogel a chynaliadwy ar draws gofal canser a gwasanaethau gwaed yng Nghymru. Fel sefydliad trydyddol a sefydliad dynodedig yn genedlaethol, mae gweithgarwch ymchwil yr Ymddiriedolaeth wedi'i gysylltu'n annatod â darpariaeth glinigol, gallu'r gweithlu, gwydnwch gwasanaeth a chanlyniadau cleifion. Mae Ymchwil, Datblygu ac Arloesi wedi'i ymgorffori mewn llwybrau gofal a gwasanaethau gweithredol, gan gefnogi mynediad cynharach at therapïau newydd, cryfhau arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chyfrannu at flaenoriaethau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o fewn amgylchedd ymchwil cymhleth. Nodweddir ymchwil oncoleg gan gymhlethdod protocol uchel, poblogaethau bach o gleifion sydd wedi'u diffinio'n foleciwlaidd, hyd astudiaethau estynedig a gofynion rheoleiddio llym. Ochr yn ochr â hynny, mae ymchwil o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru yn canolbwyntio ar ddiogelwch trallwysyadau gwaed, datblygu cydrannau a gwydnwch y gwasanaeth cenedlaethol, gan olygu yn aml fod angen rhaglenni trosiadol hirdymor yn hytrach nag allbynnau tymor byr sy'n seiliedig ar recriwtio. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu portffolio cydlynol, effaith uchel ar draws y ddau faes, wedi'i gefnogi gan lywodraethu cadarn a goruchwyliaeth gymesur.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cryfhau ei safle fel arweinydd mewn ymchwil drosiadol sy'n gysylltiedig â gwaed a chanser, megis gwaith Gwasanaeth Gwaed Cymru mewn Microhylifeg, yn ogystal ag agor Treial Therapiwteg Mynediad (ATTEST) ym Mhartneriaeth Ymchwil Canser Caerdydd (CCRP), treial o dechnoleg arloesol ar gyfer firysau canser sy'n tarddu o ymchwil labordy Prifysgol Caerdydd.

Graddfa, Cwmpas a Chyfraniad at y Portffolio Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal portffolio mawr a chymhleth sy'n cwmpasu oncoleg a gwyddor trallwysyadau. Mae gweithgarwch ymchwil yn cwmpasu'r cylch oes llawn o ddatblygu a sefydlu astudiaethau hyd at eu cyflwyno, eu dilyn a'u cwblhau, ac mae'n cynnwys ymchwil a noddir yn fasnachol ac ymchwil anfasnachol.

Portffolio Ymchwil Gwasanaeth Canser Felindre

Mae portffolio ymchwil canser yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys treialon clinigol ymyriadol ar draws datblygiad cyfnod cynnar a hwyr, astudiaethau cynhyrchion meddyginiaethol cyntaf mewn bodau dynol a therapi uwch, ymchwil arsylwadol a throsiadol, a threialon aml-ganolfan a noddir gan yr Ymddiriedolaeth gyda chyrhaeddiad cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ymchwil wedi'i hymgorffori o fewn llwybrau canser arbenigol, gan gynnwys radiotherapi a therapi gwrth-ganser


systemig, ac wedi'i integreiddio â gwasanaethau clinigol arferol. Mae gweithgarwch yn cael ei arwain gan strategaeth Uchelgeisiau Ymchwil a Datblygu Canser 10 mlynedd yr Ymddiriedolaeth; crynhoir ei themâu a'i gynnydd yn eu herbyn isod:

Velindre's Cancer Research & Development Ambitions Strategy (2021-31)

Our Mission To become a leader in cancer research nationally & internationally, transforming the culture of our organisation into one where every patient and every staff member who wants to engage with research has the opportunity to do so

Theme 1: Put patients first & center of everything we do	Theme 2: Advance new treatments, interventions & care	Theme 3: Drive translational research through connecting the lab & clinic	Theme 4: Embed research & innovation within the organisation's culture & structure
<ul style="list-style-type: none"> Established a successful and growing Palliative & Supportive Care research programme Delivering an expanding and diverse study portfolio Improving patient experience and outcomes (e.g. using evidence from brain cancer study COBra) 	<ul style="list-style-type: none"> Increased no. of local Chief Investigators Increasing access to early & late phase trials Providing increased access to Advanced (Cell and Gene) Therapies Maximising opportunities for radiotherapy research & incorporating novel imaging 	<ul style="list-style-type: none"> Established the Cardiff Cancer Research Partnership with CAVUHB and CU to deliver 'complex trials' on UHW site and develop translational research Developing clinical fellowships and a career pathway for clinical academics Collaborating on joint funding bids to attract inward investment 	<ul style="list-style-type: none"> Created Healthcare Cancer Research Fellowship Scheme with Cardiff University (CU) Trained or recruited at least one new Clinical Academic each year to lead new research. Investing income generated from Trust-led research into creating new medical and multiprofessional researcher posts

VUNHST Research Portfolio: No of research studies by category (Data cut = 20 Oct 2025)



Yn ail chwarter 2025/26, roedd yr Ymddiriedolaeth yn rheoli tua 209 o astudiaethau ymchwil ar draws y cyfnod sefydlu, recriwtio gweithredol a dilyniant. Roedd y portffolio ar gyfer 2024/25 yn cynnwys 29 o astudiaethau lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth yn un o'r tri safle gorau yn y DU, ac un lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth yn recriwtiwr gorau ar lefel Ewropeaidd.

Bu twf sylfaenol cryf yn nifer y cleifion a recriwtiwyd i dreialon clinigol ers 2020, gyda'r portffolio yn adennill lefelau cyn-Covid er gwaethaf cymhlethdod cynyddol astudiaethau a chyfran fwy o astudiaethau yn gofyn am fewnbwn clinigol dwys, cefnogaeth fferyllol, delweddu, a goruchwyliaeth lywodraethu well. Mae incwm allanol a gynhyrchir gan ymchwil hefyd wedi cynyddu'n gyson yn ystod y cyfnod hwn, gyda rhagolygon o dwf pellach, gan gefnogi cyflawni'r agenda Mynd i'r Afael â Chanser drwy Ymchwil.

Portffolio Ymchwil Rhyngddisgyblaethol a Nyrsio

Mae gweithgarwch ymchwil rhyngddisgyblaethol a nyrsio yn parhau i gryfhau, wedi'i gefnogi gan benodiad ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd o'r Athro Shea Palmer yn Athro Gofal Canser Rhyngddisgyblaethol. Bydd ei arweinyddiaeth yn helpu i ehangu cyfleoedd academaidd clinigol i nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, fferyllwyr a gwyddonwyr clinigol, gan sicrhau bod y grwpiau hyn yn chwarae rhan weithredol wrth lunio ymchwil ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae Tîm Cymorth Ymchwil Canser Gofal Iechyd Felindre yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn, gan ddarparu mentora, cefnogaeth gymrodoriaeth a chyfleoedd datblygu ymchwil. Mae cyfarfodydd rheolaidd y gymuned ymchwil, cyflwyniadau cymrodoriaethau PhD a gweithgarwch seminar wedi'i gynllunio yn dangos ymgysylltiad cynyddol ac yn cyfrannu at ddiwylliant ymchwil mwy ymgorfforedig ar draws y sefydliad.

Portffolio Ymchwil Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae Ymchwil a Datblygu Gwasanaeth Gwaed Cymru yn canolbwyntio ar drallwysyadau gwaed, trawsblannu ac effeithiolrwydd gweithredol, gan gefnogi gofynion GIG Cymru a gofynion ehangach y DU mewn trallwysyadau gwaed a thrawsblannu organau. Mae gweithgarwch, dan arweiniad strategaeth ymchwil bwrpasol Gwasanaeth Gwaed Cymru, yn cwmpasu ymchwil labordy, datblygiad trosiadol a chynnydd tuag at barodrwydd clinigol, gyda'r effaith yn cael ei gwireddu drwy ganlyniadau lefel gwasanaeth a gwydnwch cenedlaethol.

Mae uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys:

- Gan adeiladu ar y genhadaeth strategol i ddatblygu cydrannau gwaed sy'n ddiogel, yn ddigonol ac yn effeithiol, mae Rhaglen Cold FIRST yn brosiect blaenllaw sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn cefnogi uchelgais Gwasanaeth Gwaed Cymru i gael ei gydnabod fel arweinydd mewn platennau sy'n cael eu storio'n oer.
- Mae'r gwaith yn parhau i ehangu i ganfod cymhlethdodau trallwysyadau yn gynnar. Mae astudiaeth gysylltiedig yn cael ei datblygu i ymchwilio i effaith gronnus trallwysyadau lluosog ar gleifion oncoleg, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd. Mae hyn yn cryfhau'r genhadaeth i wella gofal cleifion ac ehangu ymholiadau gwyddonol ar draws llwybrau clinigol.

- Mae ymchwilwyr Gwasanaethau Trawsblannu yn ymchwilio i fiomarcwyr a allai helpu i ganfod gwrthod organau yn gynharach a gwella rheolaeth feddygol. Mae hyn yn adeiladu ar waith cynharach a ddangosodd werth darganfod biomarcwyr, gyda'r gweithgarwch cyfredol yn canolbwyntio ar adeiladu capasiti ymchwil cynaliadwy. Mae hyn hefyd yn cefnogi nod yr Ymddiriedolaeth o ehangu cyfleoedd ymchwil i wyddonwyr a chlinigwyr.


Perfformiad a Chyflenwi Ymchwil

Caiff perfformiad yn erbyn amcanion Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ei fonitro drwy fframwaith llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ac adroddir arno drwy'r Adroddiad Perfformiad Integredig a'r Is-bwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Perfformiad Ymchwil Canser

Defnyddir Recriwtio i Amser a Tharged (RTT) fel dangosydd craidd ar gyfer ymchwil yng Nghymru. Mae perfformiad recriwtio yn parhau i amrywio ar draws y portffolio. Ar ddiwedd Chwarter 2 o flwyddyn ariannol 2025/26, roedd 57% o astudiaethau anfasnachol caeedig a 67% o astudiaethau masnachol agored wedi cyrraedd eu targedau recriwtio. Er bod gwelliant pellach yn bosibl, mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu nodweddion cynhenid ymchwil oncoleg, sy'n cynnwys targedau recriwtio unigol ac felly bach, cyfnodau astudio hir a chymhlethdod treialon cynyddol (yn enwedig mewn therapïau cyfnod cynnar a datblygedig). Mae amseroedd sefydlu astudiaethau wedi aros yn gyson yn fras dros y pum mlynedd diwethaf, er gwaethaf cymhlethdod cynyddol y treialon (a'r llwyth gwaith sefydlu cysylltiedig) a nifer cynyddol o gleifion.


Amser canolrifol sefydlu astudiaeth (dyddiau) (o dderbyn Pecyn Gwybodaeth Lleol i gadarnhad Capasiti a Galluogrwydd)



Perfformiad Ymchwil Gwasanaeth Gwaed Cymru

Mae ymchwil gwasanaeth gwaed yn cael ei llywio gan saith cenhadaeth strategaeth ymchwil, datblygu ac arloesi bwrpasol Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae'r rhain, ynghyd â pherfformiad hyd at chwarter 2 2025/26, wedi'u darlunio yn y dangosfwrdd isod. Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn adlewyrchu perfformiad Ymchwil, Datblygu ac Arloesi drwy feintioli nifer y prosiectau dan arweiniad Gwasanaeth Gwaed Cymru, yr ymchwilwyr a'r adrannau sy'n cymryd rhan, partneriaethau

cydweithredol a rhyngwladol, ac allbynnau ymchwil gan gynnwys cyhoeddiadau, cyflwyniadau cynadleddau, a gweithgareddau lleadaenu a gwblhawyd.



Effaith, Gwerth a Manteision Gweithgarwch Ymchwil

Gellir dangos effaith Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn yr Ymddiriedolaeth ar draws budd i gleifion, gallu'r gweithlu a gwerth y system.

Effaith Ymchwil Cancer a Budd i Gleifion

Mae cymryd rhan mewn ymchwil cancer yn rhoi mynediad cynharach i gleifion at therapïau newydd ac yn cyfrannu at welliannau mewn ymarfer clinigol. Enghraifft glir yw treial FAKTION, astudiaeth cancer y fron ryngwladol a arweiniwyd ac a noddwyd gan Felindre. Roedd canlyniadau'r treialon yn sail uniongyrchol i drwyddedu capivasertib (Truqap®), a gafodd ei gymeradwyo wedi hynny gan NICE a'i fabwysiadu i ofal y GIG. Cynhyrchodd nawdd yr Ymddiriedolaeth a pherchnogaeth data incwm masnachol sy'n cael ei ailfuddsoddi i gryfhau capasiti ymchwil.

Mae effeithiau pennaf ymchwil cancer yn cynnwys:	
Darparu portffolio ymchwil amrywiol, tua 200 o astudiaethau ar wahanol gamau o gyloch bywyd astudiaeth – gosod, darpariaeth weithredol, a rheolaeth barhaus – yn cynnwys astudiaethau cam hwyr, astudiaethau cam cynnar, a Chynhyrchion Meddyginiaeth Therapi Datblygedig (ATMPs).	Astudiaethau lluosog yn recriwtio cleifion cyntaf yng Nghymru/DU ac/neu Ewrop gan gynnwys ar gyfer BNT122-01 BioNTech ar gyfer cancer y colon, BNT113-01 ar gyfer cancer pen a gwddf a treialon cancer y fron TROPION 03 AstraZeneca (cleifion cyntaf yn Ewrop), gan ddod â thriniaethau newydd i gleifion o ledled De Cymru.
Twf Partneriaeth Ymchwil Cancer Caerdydd, sicrhau a hyrwyddo cydweithrediad traws sefydliadol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro [CVUHB] a Phrifysgol Caerdydd, gan alluogi cyflwyno treialon cymhleth, darparu cyfleusterau Cymrodoriaeth a hyfforddi ar gyfer staff (cofrestrwyr a nyrsys), a hyrwyddo ymchwil drawsnewidiol ('o'r bwrdd i'r gwely') o fewn prifddinas Cymru.	Recriwtio i borthlffolio sydd yn ehangu o astudiaethau ymchwil gofal cleifion-ganolog, gwarchodol a chymorthol yn Velindre, gan gynnwys astudiaethau sy'n gwerthuso heintiau parenteral ar ddiwedd bywyd (CHELsea II) a optimising rheoli Thrombosis Cysylltiedig â Chanser (CAT) mewn cleifion sydd â chanser datblygedig.
Gweithgaredd ymchwil Nyrsio Newydd, Gweithwyr Iechyd Cydweithredol [AHPs] a Gwyddorau Iechyd, wedi'i ariannu gan y cais integredig, ac wedi'i gefnogi drwy fodel Gymrodoriaeth Ymchwil Cancer Gofal Iechyd Velindre.	Sefydlu grŵp aml-broffesiynol i oresgyn heriau capasiti ymchwil therapi ymbelydrol, gan arwain at gynnydd mewn recriwtio i dreialon sy'n cynnwys therapi ymbelydrol, gan gynnwys treialon o bwys strategol ar Ddull Therapi Tonn Protoneg (yn y ysgyfaint [HIT Meso], y fron [PARABLE], yr ymennydd [APPROACH] a chanser penn a gwddf [PROTIS]) a chyfuniadau Cyffur-therapi ymbelydrol.
Cefnogi arweinydd ymchwil ein dyfodol: mae arweinydd clinigol sy'n cael eu hariannu gan gyllid elusenol ar hyn o bryd yn arwain ymchwil proffil uchel yng Nghymru e.e. Menter Ymchwil Tumorau Ymennydd (BATRI) – wedi'i ariannu am £1M y flwyddyn gan Ymchwil Cancer Cymru (CRW) i gefnogi ymchwil cancer ymennydd; a QuickDNA, yn ymestyn profi genomig i arfer yng Nghymru, ar gyfer cancer y ysgyfaint ac (yn y dyfodol) canserau eraill. Mae cyllid gan Elusen Velindre wedi gweld llwyddiant aelodau o unigolion allweddol yn sicrhau cyllid gan BATRI i ehangu eu gwaith ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar y claf i asesu effeithiolrwydd ymyriadau clinigol - i rai, y rôl gyntaf fel Prif Ymchwilydd (CI) llwyddiannus ar gyfer grant mawr, gan profi twf mewn rolau arweinyddiaeth allweddol.	

Mae profiad cleifion a gofalwyr yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni ymchwil. Mae Bwrdd Partneriaeth Cleifion a Gofalwyr Felindre wedi mynegi'r effaith ddofn a pharhaol y gall cymryd rhan mewn ymchwil ei chael ar gleifion, teuluoedd a chymunedau:



Mae gan Velindre hanes balch o lwyddiant mewn ymchwil cancer sydd wedi siapiro triniaethau newydd cyffrous ac wedi darparu canlyniadau gwell i gleifion. Gall cymryd rhan mewn ymchwil newid bywydau cleifion, gan ganiatáu iddynt barhau i fyw bywydau llawn, ystyrlon gyda'u teuluoedd a'u hanwyliaid. Mae effeithiau ymchwil yn lledaenu ar draws cymunedau yng Nghymru wrth i driniaethau newydd weld cleifion cancer yn byw'n hirach, yn cyfrannu i'r gymdeithas ac yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n hanfodol i bobl Cymru fod Velindre yn parhau i roi gobaith i gleifion cancer drwy ddarparu rhagoriaeth mewn ymchwil. - Bwrdd Partneriaeth Cleifion a Gofalwyr Felindre

Gweithlu a Chynaliadwyedd

Cefnogir paratoi ar gyfer gofynion rheoleiddio sy'n esblygu, gan gynnwys Rheoliadau Treialon Clinigol newydd y DU a chanllawiau ICH-GCP diwygiedig sy'n dod i rym ym

mis Ebrill 2026, trwy weithdrefnau gweithredu safonol wedi'u hadnewyddu, goruchwyliaeth ddigidol wedi'i chryfhau a gweithgarwch parodrwydd arolygu.

Mae gweithgarwch ymchwil yn sail i ddatblygu'r gweithlu a gwerth economaidd. Mae'r gweithlu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn cynnwys nyrsys ymchwil, ymarferwyr, fferyllwyr, gwyddonwyr, rheolwyr data ac arbenigwyr llywodraethu sy'n gweithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr clinigol. Rhwng 2023 a 2026, cefnogodd buddsoddiad elusennol ac allanol greu 18.6 o swyddi ymchwil cyfwerth ag amser llawn, gan sefydlogi'r ddarpariaeth a chefnogi cynllunio olyniaeth. Ochr yn ochr â hynny, mae cyllid Cynllun Gwirfoddol ar gyfer Mynediad a Thwf Prisio Meddyginiaethau Brand (VPAG) wedi'i sicrhau i ehangu'r ddarpariaeth ymchwil fasnachol, gan adlewyrchu hyder yng ngallu'r Ymddiriedolaeth a chefnogi cynaliadwyedd tymor hwy. Heriau a Chyfeiriad y Dyfodol.

Mae gweithgarwch Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn parhau i gael ei gyflawni o fewn amgylchedd cyfyngedig ac esblygol. Mae ymchwil oncoleg yn wynebu cymhlethdod protocol, gofynion rheoleiddio a sensitifwydd recriwtio cynyddol, tra bod ymchwil Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gofyn am fuddsoddiad cynaliadwy dros orwelion amser hirach a chydbwyso gofalus â darparu gwasanaethau gweithredol. Mae capasiti'r gweithlu yn parhau i fod yn bwysau trawsbynciol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy gynllunio cryfach, prosesau dichonoldeb gwell, ymgysylltu'n gynnar â gwasanaethau cymorth a meincnodi parhaus yn erbyn canolfannau arbenigol GIG cymharol. Mae moderneiddio digidol a threfniadau llywodraethu wedi'u hadnewyddu yn gwella goruchwyliaeth, effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth.

Gan edrych ymlaen, uchelgais yr Ymddiriedolaeth yw atgyfnerthu a chryfhau ei safle fel canolfan flaenllaw ar gyfer ymchwil canser a gwaed o fewn GIG Cymru. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys optimeiddio rheoli portffolio, gwella cynaliadwyedd y gweithlu, aeddfedu llywodraethu a goruchwyliaeth ddigidol, ac alinio gweithgarwch ymchwil ag anghenion gwasanaeth a system. Drwy'r rhaglen waith hon, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ehangu mynediad cleifion at driniaethau arloesol, cefnogi gwydnwch gwasanaethau a chyfrannu at amgylchedd ymchwil cynaliadwy o ansawdd uchel i Gymru.

4.3 Arloesi

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae Arloesi wedi parhau i wneud cynnydd cryf ar draws chwe rhaglen strategol a phrosiectau unigol ychwanegol sydd gyda'i gilydd yn cefnogi adeiladu capasiti a gallu ar gyfer arloesi a darparu cefnogaeth i fentrau traws-sefydliadol. Mae portffolio Arloesi bellach yn cynnwys 22 o brosiectau gweithredol, sy'n dangos ymgysylltiad parhaus ar draws yr Ymddiriedolaeth a datblygiad parhaus gwaith sy'n cyd-fynd â gwella a thrawsnewid gwasanaethau.

Mae Academi **Hyrwyddo Radiotherapi Cymru (ARC)** yn parhau i fod yn faes cyflwyno allweddol, gyda'r rhaglen yn parhau i redeg yn llwyddiannus fel menter

Cymru gyfan rhwng Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, BIP Bae Abertawe, a BIP Betsi Cadwaladr. Mae prosesau ar gyfer llywodraethu, adolygu ceisiadau a goruchwylio wedi cael eu mireinio ymhellach yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau eglurder, cysondeb a datblygiad amserol cynigion prosiect. Mae 13 o brosiectau wedi'u cymeradwyo o dan raglen ARC bellach. Mae ARC yn parhau i gefnogi mabwysiadu technegau newydd, gwella mynediad at offer radiotherapi o'r radd flaenaf, a chryfhau cydweithio ar draws Byrddau Iechyd, gan adlewyrchu ei aeddfedrwydd cynyddol fel plattform cenedlaethol ar gyfer arloesi radiotherapi.

Safon Ryngwladol ISO 56001 ar gyfer Arloesi - Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd mewn perthynas ag ISO 56001, gyda'r Tîm Arloesi yn symud y tu hwnt i'r cam cyn-asesu ac yn paratoi nawr ar gyfer archwiliadau ardystio Cam 1 a Cham 2, a drefnwyd ar gyfer mis Ionawr a mis Chwefror. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i sefydlu dull strwythuredig, effeithiol ac archwiliadwy o reoli arloesi, gan gefnogi mwy o gysondeb a chydlynid o ran gweithgarwch arloesi ar draws y sefydliad.

Cipio Syniadau a Heriau Piblinell drwy Syniadau Disglair - Her Seicoleg Syniadau Disglair – Dyma'r ail her a weithredwyd eleni ac mae wedi creu ymgysylltiad cryf, gan ganolbwyntio ar archwilio ffyrdd o wella cefnogaeth emosiynol i gleifion o fewn gofal canser. Mae mewnwelediadau o'r gweithdai a gynhaliwyd wedi llywio dyluniad yr her, ac mae staff wedi cyfrannu amrywiaeth o syniadau gyda'r nod o fynd i'r afael â rhwystrau i ofal megis galw mawr, cyfathrebu dameidiog a mynediad cyfyngedig at offer seicolegol. Parhaodd yr her rhwng 22 Awst a 24 Hydref 2025, gyda chynigion yn cael eu hadolygu ac yna'n cael eu symud i'r cam adolygu trwy ddull Tîm amlddisgyblaethol. Mae her rhif tri wedi'i chynllunio ar gyfer chwarteri 3 a 4.

Cynllun Dyfarniad Bach Arloesi (a gefnogir drwy Elusen Felindre) – Mae tri phrosiect wedi'u datblygu hyd yn hyn; *E-Lofnodi - Gweithredu Llofnodi Dogfennau Digidol Fferyllol*, COLDFirst - Cyflenwad Cyfathrebu i Gefnogi Ymchwil Platennau a Storiwyd yn Oer mewn Gofal Cyn-Ysbyty (Gwasanaeth Gwaed Cymru), a *Phrosiect Band Arddwrn Cod QR Cymru* (Tîm Gofal Lliniariol). Mae dau gais arall yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, gan gefnogi momentwm parhaus mewn arloesi dan arweiniad staff ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Rhaglen Future Flight – Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i chwarae rhan allweddol mewn cydweithrediad cenedlaethol a ledled y DU gyda Phrosiect Calon y Ddraig, y prosiect cydweithredol diweddaraf o dan raglen Future Flight UKRI/SBRI. Mae Calon y Ddraig yn datblygu dronau dosbarthu meddygol ymreolus i wella cyflymder a dibynadwyedd cludo cyflenwadau brys fel cynhyrchion gwaed a samplau ledled Cymru. Mae'r cam presennol yn canolbwyntio ar fireinio'r system dechnegol, gan gynnwys canllawiau hedfan ymreolus, integreiddio radar a llif gwaith gweithredol, mewn partneriaeth agos â Gwasanaeth Gwaed Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Nod y gwaith hwn yw sefydlu gwasanaeth prototeip cwbl weithredol o Donysguboriau erbyn 2027.

Bydd y rhaglen, a ariennir gan Innovate UK ac a arweinir gan Snowdonia Aerospace gyda nifer o bartneriaid yn y diwydiant, yn cynnal arddangosiadau rhanbarthol ym mis Chwefror 2026 yn Nhonysguboriau, Wrecsam a Llanelli, gyda chefnogaeth digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. Ochr yn ochr â hyn, mae Rhaglen Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol Future Flight Prifysgol Birmingham yn asesu agweddau'r cyhoedd at ddefnyddio dronau meddygol yng Nghymru a bydd yn cyhoeddi canfyddiadau i lywio datblygiad a chyflwyniad yn y dyfodol.

Hyfforddiant Sefydlu - Mae'r Tîm Arloesi hefyd wedi cryfhau gallu mewnol a pharodrwydd sefydliadol. Mae arloesi bellach wedi'i integreiddio i raglen sefydlu 'Croeso' yr Ymddiriedolaeth trwy ddeunyddiau hyfforddi sydd newydd eu datblygu, gyda'r bwriad o'i gyflwyno ar draws nifer o garfannau yn chwarter 3 a chwarter 4.

Canolfan Gydweithredol ar gyfer Dysgu, Ymchwil ac Arloesi - Daeth gweithdy Efelychu a Chydweithio Prosiect Nexus a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025 â 40 o staff o bob rhan o'r Ymddiriedolaeth ynghyd i archwilio'r potensial i gymhwyso realiti rhithwir, deallusrwydd artiffisial ac efelychu o fewn y Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Dysgu, Ymchwil ac Arloesi a Chanolfan Ganser newydd Felindre. Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio strategol hefyd ar 20 Tachwedd, a hwyluswyd gan Amazon Web Services, gan ddod â grŵp bach o dimau allweddol ynghyd sy'n hanfodol i lunio'r Ganolfan Gydweithredol o fewn Canolfan Ganser newydd Felindre. Canolbwyntiodd y sesiwn ar ddiffinio'r elfennau craidd anffisegol sy'n ofynnol i wneud y mwyaf o werth, effaith a chynaliadwyedd y Ganolfan yn y dyfodol.

Modiwl Meistr Arloesi - Mae gwaith yn parhau ar y modiwl Meistr Arloesi mewn Gofal Iechyd, rhaglen ôl-raddedig Lefel 7 a gynlluniwyd i arfogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol â'r sgiliau a'r hyder i arwain prosiectau arloesi sy'n gwella canlyniadau cleifion, profiad staff ac effeithlonrwydd sefydliadol. Mae'r modiwl yn cyfuno dysgu strwythuredig â chymhwysiad ymarferol ac yn alinio â Fframwaith Arloesi Llywodraeth Cymru ac egwyddorion Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth, gan sicrhau llywodraethu cadarn ac effaith fesuradwy.

Cronfa Hyrwyddo Radiotherapi - Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cynhaliwyd Digwyddiad Arddangos Ymchwil ac Arloesi Radiotherapi ym mis Medi 2025, gan dynnu sylw at waith prosiect a wnaed yn bosibl trwy gyfraniadau at Gronfa Hyrwyddo Radiotherapi, a gefnogir gan Elusen Felindre, Sefydliad Moondance, a rhoddion dyngarol eraill. Tanlinellodd y digwyddiad effaith buddsoddiad elusennol wrth yrru ymchwil radiotherapi, gwella gofal cleifion, a llunio dyfodol gwasanaethau canser yn ne Cymru.

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol - Mae'r Adran Arloesi yn cydlynu ac yn cefnogi Hyfforddiant Rheoli Arloesi ISO 56000/56001 cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru, gan helpu i feithrin gallu arloesi ar draws GIG Cymru. Gan weithio gyda rhwydwaith Arweinwyr Arloesi GIG Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn goruchwylio trefniadaeth, cyfathrebu ac aliniad â'r Strategaeth Arloesi genedlaethol a Fframwaith Arloesi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.4 Gweithio mewn Partneriaeth

Mae gan yr Ymddiriedolaeth rôl ganolog wrth ddarparu gofal cancer yn ne-ddwyrain Cymru a rôl genedlaethol o ran darparu Gwasanaeth Gwaed Cymru ac felly mae darparu trwy bartneriaeth yn rhan annatod o'n gweithrediadau. Yn ogystal, bu ffocws dros y cyfnod diwethaf ar ddatblygu partneriaethau strategol pellach:

- Cyd-bwyllgor Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru
- Partneriaid Iechyd Caerdydd
- Rhaglen Cancer De-ddwyrain Cymru
- Partneriaeth Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Cyd-bwyllgor Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfranogwr gweithredol ynn Nghyd-bwyllgor Rhanbarthol y De-ddwyrain sydd newydd ei sefydlu. Diben y Cyd-bwyllgor Rhanbarthol yw gwella cydweithio, lleihau anghydraddoldebau, a hyrwyddo gwasanaethau gofal iechyd cynaliadwy ar draws y rhanbarth, gan nodi cam tuag at lywodraethu iechyd rhanbarthol integredig.

Partneriaid Iechyd Caerdydd

Mae Partneriaid Iechyd Caerdydd yn bartneriaeth strategol rhwng Prifysgol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n dod â phartneriaid academaidd, clinigol a diwydiant ynghyd. Mae'n cydgysylltu partneriaethau gwyddoniaeth darganfod, gofal iechyd, addysg a diwydiant i gyflymu arloesi i ymarfer, gwella iechyd a thegwch, a gyrru twf economaidd cynhwysol ac adfywio a chafodd ei lansio'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2025. Bu llawer o drafodaeth ar draws Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ddatblygiad y bartneriaeth strategol bwysig hon.

Y cynnyrch cyntaf oedd prospectws a gwefan gychwynnol i gefnogi lansiad fel rhan o Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru ar 1 Rhagfyr. Mae tri maes thematig wedi'u datblygu fel blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer buddsoddi: gofal cancer y genhedlaeth nesaf; therapïau ymennydd; a galluoedd meddygaeth fanwl. Mae pob un o'r meysydd thematig hyn yn greiddiol i lwyddiant tymor byr Partneriaid Iechyd Caerdydd. Cynrychiolodd Wendy Lerner, Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd, Bartneriaid Iechyd Caerdydd mewn Panel Hwb Gwyddorau Bywyd, fel rhan o'r Uwchgynhadledd Buddsoddi. Ochr yn ochr â hynny, cafwyd datganiad i'r wasg ar y cyd gan y tri sefydliad a phroses gyfathrebu fewnol ategol. Mae Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro wedi'i benodi fel penodiad ar y cyd.

Bydd datblygu Ardal Arloesi Caerdydd yn angori ac yn galluogi'r Bartneriaeth sy'n seiliedig ar le ymhellach. Mae'r Ardal Arloesi yn cynnwys y coridor pum milltir sy'n cysylltu Cardiff Edge, Parc y Mynydd Bychan, Canolfan Ganser Felindre, a Phrifysgol Caerdydd. Felly mae'n cyfuno delweddu uwch, genomeg, biofancio,

gweithgynhyrchu Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapi Uwch a threialon clinigol ac mae'n creu cyfleoedd pellach ar gyfer màs critigol ar gyfer datblygiadau arloesol mewn atal, diagnosis, triniaeth a goroesiad.

Rhaglen Canser De-ddwyrain Cymru

Mae Rhaglen Canser Rhanbarth De-ddwyrain Cymru yn rhan o strwythurau cynllunio cancer y rhanbarth ac yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Cyflawni Portffolio Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru ehangach. Ei nod cyffredinol yw gwella atal cancer, canfod cynnar, triniaeth a gofal lliniarol, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, teg, ac sy'n canolbwyntio ar anghenion cleifion ar gyfer poblogaeth De-ddwyrain Cymru. Mae Bwrdd y Rhaglen yn darparu goruchwyliaeth strategol, gan arwain y gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso'r rhaglen i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni.

Mae pob prosiect a menter newid o fewn y rhaglen wedi'u halinio â strategaethau cancer unigol sefydliadau partner, gan flaenoriaethu meysydd lle mae cydweithio rhanbarthol yn darparu gwerth ychwanegol ac yn cryfhau canlyniadau ledled De-ddwyrain Cymru hefyd.

Yn ystod y cyfnod hwn, adolygwyd yr holl strategaethau cancer rhanbarthol oedd ar gael, gyda meysydd allweddol a themâu cyffredin wedi'u nodi a'u mapio yn erbyn blaenoriaethau cenedlaethol a nodir yn y Datganiad Ansawdd Canser a Chynllun Gwella Canser Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi darparu sylfaen gref ar gyfer cynllunio strategol rhanbarthol pellach. Ochr yn ochr â hynny, cynhaliwyd asesiad sylfaenol o weithgarwch gwasanaethau cancer traws-sefydliadol, a lywiodd ddatblygiad Rhaglen Waith Canser Rhanbarthol Cam 1. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar feysydd lle gall arweinyddiaeth ar y cyd a chydweithio rhanbarthol ychwanegu gwerth penodol wrth fynd i'r afael â heriau a rennir.

Cytunwyd ar set gychwynnol o flaenoriaethau ar gyfer Cam 1, yn cwmpasu camau galluogi, camau blaenoriaeth uniongyrchol, a sganio'r gorwel. O fewn y fframwaith hwn, nodwyd sawl blaenoriaeth benodol fel rhai a fyddai'n elwa o gydlynu rhanbarthol, gan gynnwys datblygu Rhestr Orlhain Cleifion Canser Rhanbarthol, cryfhau cefnogaeth a llywodraethu Tîm Amlddisgyblaethol Rhanbarthol, a hyrwyddo Datblygu Gweithlu Oncoleg Rhanbarthol.

Mae gwaith yn parhau ar draws blaenoriaethau Cyfnod 1, ond mae'r sylw bellach wedi troi at fireinio Cyfnod 2 hefyd. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u halinio'n fwy uniongyrchol â'r agenda cancer genedlaethol a'r camau gweithredu a nodir yn adroddiad y Grŵp Cynghori Gweinidogol, gan sicrhau bod ymdrechion rhanbarthol yn parhau i fod wedi'u halinio'n agos â disgyliadau cenedlaethol.

Partneriaeth Weithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Mae'r bartneriaeth strategol wedi'i chynllunio i hwyluso ymateb ar y cyd i dirwedd esblygol oncoleg a therapïau datblygedig, gyda ffocws ar y canlynol:

- Cynllunio darparwyr cydweithredol ar draws y ddau sefydliad
- Datblygu modelau gofal ar gyfer y dyfodol sy'n gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y claf, ac yn alinio â manylebau gwasanaeth cenedlaethol.
- Rheoli risg, gyda chleifion yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion clinigol, a chyda'r gallu i gleifion symud yn ddi-dor rhwng lleoliadau a sefydliadau yn ôl yr angen

Cytunwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer y cam cyntaf fel a ganlyn:

- Y Model Clinigol ar y Cyd, gan gynnwys Hematoleg ac oncoleg aciwt
- Afferesis Therapiwtig
- PET-CT a PETIC
- Rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau

4.5 Canolfan Ganser newydd Felindre

Mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud ac mae Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre ar y trywydd iawn i drin y claf cyntaf ym mis Ebrill 2027 yn yr ysbyty newydd. Mae'r ffrâm fawr wedi'i chwblhau gyda'r 'gosod carreg gopa' wedi'i ddathlu ym mis Tachwedd 2025, mae'r cydrannau strwythurol sy'n weddill yn cael eu gosod ar hyn o bryd ac mae'r gwaith ffitio mewnol ar yr adeilad wedi dechrau ar amser.



Mae prosiectau seilwaith o'r raddfa hon yn heriol ac mae trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, rheolaeth y contract a rheolaeth ariannol, a chyflawniad annibynnol rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi'r cyflawniad. Mae rhwymedigaethau allweddol yr Ymddiriedolaeth wedi'u cwblhau'n dda/ar amser (e.e. gwaith Adran 278, cymeriant Foltedd Uchel) ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi bodloni holl rwymedigaethau'r Cytundeb Prosiect. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd 58% o'r ffordd drwy'r prosiect, ac mae llai na 5% o'r arian wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer y prosiect wedi'i dynnu i lawr, sy'n dangos ymhellach berfformiad gweithredol, datrys problemau a rheolaeth ariannol gadarn. I grynhoi, mae'r Ymddiriedolaeth yn dilyn y cynllun ac o fewn y gyllideb.

Crynodeb Cynnydd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro gweithgarwch ar y safle yn weithredol i sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol a phensaernïol â'r contract. Mae hyn yn cynnwys Syrffewr Adeiladu Awdurdod a benodwyd yn allanol a pherthynas gadarnhaol a phroffesiynol â'r Profwr Annibynnol (Artelia) i roi goruchwyliaeth allanol â chefnogaeth Indemniad Proffesiynol, ochr yn ochr ag archwiliadau safle dyddiol gan dîm prosiect yr Ymddiriedolaeth sy'n olrhain rhaglen, ansawdd a chydymffurfiaeth â manylebau Sacyr.


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi cefnogaeth dechnegol helaeth i'r contractwr er mwyn cwblhau'r dyluniad peirianeg, ac er y nodir nad yw'r lluniadau dylunio cydlynol terfynol wedi'u derbyn eto, mae llwybr clir at gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2026.

Arian Wrth Gefn (Aseiad Risg Meintiol)

Yn ariannol, mae 58% o'r prosiect wedi'i gwblhau, gyda llai na 5% o'r arian wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer y prosiect wedi'i dynnu i lawr, sy'n tystio i berfformiad gweithredol, datrys problemau anariannol a rheolaeth ariannol gref.

Mewn adolygiad a gynlluniwyd ar gyfer mis Hydref 2025, rhyddhawyd £6m (32%) o'r cyllid wrth gefn yn ôl i Lywodraeth Cymru, i'w ailddyrranu i brosiectau eraill ledled Cymru, gan ddangos ymhellach reolaeth costau rhaglenni a llywodraethu da.

Cerrig Milltir Allweddol (Wedi'u Cwblhau)



Cerrig Milltir Allweddol (Wedi'u Cwblhau)



Final nVCC Design

Trosglwyddo'r Gwasanaeth i Ganolfan Ganser newydd Felindre

Mae gan brosiect Canolfan Ganser newydd Felindre a rhaglen Dyfodol Felindre ystod o brosiectau ynddynt a fydd yn cefnogi agor Canolfan Ganser newydd Felindre yn 2027. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Comisiynu clinigol: comisiynu Canolfan Ganser newydd Felindre (ailraddio offer; gwasanaethau ac ati).
- Trosglwyddo gwasanaethau o Ganolfan Ganser Felindre i Ganolfan Ganser newydd Felindre e.e. pa wasanaethau sy'n symud pryd.

Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y cynllun meistr cyffredinol ac yn cael eu rheoli gan Fwrdd Prosiect Canolfan Ganser newydd Felindre (sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol). Mae'r cynllun yn disgrifio:

- Sut mae'r broses drawsnewid yn alinio â'r rhaglen adeiladu gyffredinol.
- Trefniadau llywodraethu i sicrhau y bydd rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth fel y'u nodir yn y Cytundeb Prosiect yn cael eu cyflawni.
- Sut y bydd y broses comisiynu offer yn cael ei rheoli, gan gynnwys cyflymyddion llinol (linacs), ynnyddion fferyllol a'r holl offer meddygol mawr arall.
- Sut y bydd gweithgareddau gweithredol a chomisiynu cyn y cyfnod trosglwyddo yn cael eu rheoli.
- Cynlluniau ar gyfer symud gwasanaethau i'r safle newydd mewn dilyniant.
- Gofynion adnoddau.
- Ystyriaethau rhedeg deuol

Dull o drawsnewid

Cydnabyddir yn y cyfnod cynnar hwn fod llawer o'r cynllunio ar gyfer y cyfnod pontio o reidwydd ar lefel uchel a bydd cynlluniau lefel gwasanaeth mwy manwl yn cael eu datblygu wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Yn y pen draw, bydd yr holl gynlluniau manwl yn bwydo i'r cynllun trosglwyddo graddol, sef symud gwasanaethau mewn dilyniant i'r adeilad newydd. Mae'r amserlen ar gyfer y cyfnod pontio o fewn y rhaglen adeiladu ehangach wedi'i nodi isod.



Hyfforddiant y gweithlu

Bydd hyfforddiant y gweithlu yn digwydd mewn dau gam. Yn gyntaf yn ystod y cyfnod adeiladu pan fydd hyfforddiant cyffredinol ar bolisiâu gweithredol, llwybrau gofal a systemau digidol ledled yr ysbyty, yn ogystal â dyluniad y cyfleusterau newydd. Bydd hyfforddiant yn ystod y cyfnod comisiynu wedi'i deilwra'n fwy i bob

gwasanaeth ac mae'n debygol o gynnwys gweithredu offer newydd gydag ymarferion efelychu posibl.

Dyddiadau Allweddol

- 22 Medi 2026 - Cwblhawyd adeiladu Cam 1 (byncyrs therapi pelydr-x).
- 21 Ionawr 2027 - Cam 1 A (byncyrs 1-5) wedi'i gwblhau.
- 16 Mawrth 2027 - Cwblhawyd Cam 2 adeiladu (gweddiill yr ysbyty), ac fe'i trosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth. Dechreua'r taliad.
- 16 Mawrth – 13 Ebrill 2027 - Comisiynu gweithredol (h.y. ar ôl trosglwyddo'r adeilad, yr ysbyty yn barod ar gyfer cleifion).
- 14 Ebrill 2027 - Y Ganolfan newydd yn barod ar gyfer y claf cyntaf. (NB 2 beiriant linac).
- 14 Ebrill 2027 - Mae mudo gwasanaethau yn dechrau.
- 14 Ebrill– 30 Medi 2027 - Rhedeg ddeuol yr hen ganolfa a'r un newydd
- 3 Medi 2027 - Linacs 7 ag 8 wedi eu comisiynu ac yn barod ar gyfer eu defnyddio.
- 30 Medi 2027 - Mae gwasanaethau yn yr hen Ganolfan Ganser Felindre yn dod i ben.

Llywodraethu

Mae'r prosiect yn cael ei reoli'n gadarn gyda hierarchaeth lywodraethu gref. Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw goruchwyliaeth weithredol uniongyrchol, arbenigedd technegol allanol, ymgysylltiad clinigol a chynrychiolaeth gan y Llywodraeth. Caiff gweithgarwch ei graffu ymhellach gan Is-bwyllgor Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac adroddir sicrwydd Aelodau Annibynnol yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Cyflawnir goruchwyliaeth allanol gan lechyd LIC a'r Trysorlys drwy adolygiadau rhaglen chwarterol, wyneb yn wyneb. Mae'r adroddiad uchafbwyntiau misol wedi'i atodi i'r adran hon yn ogystal â golwg fanwl ar weithgareddau mapio'r rhaglen integredig Project Co a'r Ymddiriedolaeth.

4.6 Seilwaith Allweddol Arall

Seilwaith Tonysguboriau

Mae Rhaglen Seilwaith Tonysguboriau yn fenter strategol bwysig i Wasanaeth Gwaed Cymru, sy'n hanfodol nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i GIG Cymru yn ehangach. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu seilwaith cynaliadwy, modern ym mhrif leoliad Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Nhonysguboriau er mwyn sicrhau gwydnwch a gallu hirdymor gwasanaethau gwaed a thrawsblaniadau ledled Cymru. Drwy ddiogelu'r safle presennol ar gyfer y dyfodol, bydd y Rhaglen yn mynd i'r afael â gofynion gwasanaeth cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn cefnogi arloesi, ac yn gwella llesiant staff, gan ddiogelu gallu GIG Cymru i ddiwallu anghenion cleifion nawr ac yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r prif ysgogwyr yn cynnwys y galw cynyddol am

wasanaethau gwaed a thrawsblaniadau, yr angen i gydymffurfio â safonau rheoleiddio, a'r angen i gefnogi arloesi a llesiant y gweithlu.

Mae Bwrdd Rhaglen Seilwaith Tonysguboriau wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau, gan gynnwys adnewyddu, ailddatblygu rhannol, ailddatblygu llawn y safle presennol, ac adleoli i safle newydd. Yr opsiwn a ffeirir yw ailddatblygu cynhwysfawr o brif leoliad Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Nhonysguboriau. Mae'r dull hwn yn cynnig y manteision mwyaf o ran diogelu darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, sicrhau parhad busnes, a sicrhau'r gwerth mwyaf am arian. Bydd yn galluogi Gwasanaeth Gwaed Cymru i ymateb yn hyblyg i ofynion clinigol a gweithredol yn y dyfodol, cefnogi trawsnewid digidol, a chynnal ei rôl hanfodol o fewn GIG Cymru.

Yn arbennig, mae'r opsiwn a ffeirir yn dileu'r gofyniad i ymestyn yr ystâd bresennol, gan ei fod yn cynnwys caffael Canolfan Arloesi Clwyfau Cymru gyfagos, a thrwy hynny'n darparu'r lle ychwanegol angenrheidiol. Bydd yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn ar gyfer Gwaith Galluogi yn cael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Bydd Gwaith Galluogi yn cwmpasu'r elfennau galluogi megis caffael Canolfan Arloesi Clwyfau Cymru ac adeiladu'r ganolfan ynni.

"Hen" Ganolfan Ganser Felindre (oVCC)


Y cynllun presennol yw y bydd hen safle Canolfan Ganser Felindre yn cael ei ddymchwel a'i ddychwelyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2029/2030. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal gwaith arolygu helaeth i lywio'r cynllun hwn. Bydd Achos Amlinellol Strategol yn cael ei ddatblygu i'w gyflwyno yn 2026/2027.

Gwaredu Hen Ysbyty yr Eglwys Newydd

Cymeradwywyd trosglwyddo hen ysbyty'r Eglwys Newydd, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2024, ac yna cwblhawyd perchnogaeth yr ystâd yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2024.

Mae tair prif elfen wedi bod i'r gwaith ers hynny:

- Gwaith "gwneud yn ddiogel" hwylus ar gyfer y safle – Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol yng Nghyngor Caerdydd, CADW a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Paratoi ar gyfer gwaredu – Gan gynnwys cyngor arbenigol gan bensaer cadwraeth, asiantau masnachol ac ymgynghorwyr cynllunio ar y dull a gymerwyd.
- Bod yn dirfeddiannwr cyfrifol yn y cyfamser – Fel lesddeiliad i sefydliadau chwaraeon cymunedol a gwarcheidwad ased pwysig i'r gymuned leol. Mae'r ymgysylltiad parhaus â'r gymuned wedi bod yn agored ac yn gytbwys.




Mae'r broses waredu wedi mynd rhagddi'n dda, gyda phroses mynegiant o ddi-ddordeb wedi cychwyn ym mis Hydref 2026, gyda'r cam cyntaf yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2026. Bydd y cam nesaf yn cychwyn ddechrau mis Chwefror 2026, gydag amseriad y broses waredu gyfan yn dibynnu ar ganlyniad y cam nesaf hwn.

4.7 Datblygiad Digidol

'Rhagoriaeth Ddigidol' yw gweledigaeth a strategaeth ddigidol yr Ymddiriedolaeth. Mae technoleg a gwasanaethau digidol yn rhoi'r cyfle inni wneud newid gwirioneddol yn y berthynas rhwng gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, y bobl y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu gwasanaethu, a'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir. Mae'r Ymddiriedolaeth ddwy flynedd i mewn i'n taith o ddylunio gwasanaethau mewn partneriaeth â chleifion a rhoddwyr, a fydd yn y pen draw yn caniatáu inni ailddychmygu gwasanaethau a darparu profiad mwy personol wedi'i alluogi gan dechnoleg ddigidol. Mae chwe thema ddigidol graidd, yn arwain ein trawsnewidiad o ran darparu gwasanaethau cysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar bobl, wedi'u personoli ac sy'n gynaliadwy.



Dros ddwy flynedd gyntaf y strategaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr holl themâu strategol ac mae'r ffeithlun isod yn tynnu sylw at ran o'r cynnydd allweddol. Mae'r rhain wedi galluogi gwasanaethau gofal iechyd allweddol newydd yn ddigidol, megis agoriad llwyddiannus canolfan radiotherapi Felindre yn Nevill Hall, Datrysiad Radiotherapi Integredig (IRS) di-bapur newydd sy'n cael ei gynnal ar y cwmwl, datrysiad Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion digidol newydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau canser a chlinigwyr, a system archebu apwyntiadau rhoddwyr newydd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru. Ymhellach, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adeiladu ar ei galluoedd data a mewnwelediad, trwy wasanaethau a'i dull Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, a gosod y sylfeini ar gyfer mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial yn ehangach.



Mae digidol yn rhan allweddol o sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gyrru ei hamcanion strategol ymlaen. Mae Canolfan Ganser newydd Felindre yn ysbyty SMART enghreifftiol, gyda'r bwriad o gyflymu trawsnewid digidol ar draws GIG Cymru a gwasanaethu fel model ar gyfer prosiectau seilwaith yn y dyfodol. Gall hyn weithredu fel arddangosfa i GIG Cymru gyda gwasanaethau gan gynnwys "Drws Blaen Digidol", olrhain lleoliad ac asedau wedi'i ymgorffori yn ffabrig yr adeilad a galluoedd deallusrwydd artiffisial llais amgylchynol. Mae Gwasanaeth Canser Felindre hefyd yn cymryd rôl arweinyddiaeth system drwy weithredu Rhestrau Olrhain Cleifion Canser uwch a chynllunio sut y gellir defnyddio'r rhain i wella llwybrau gofal ar draws y rhanbarth.


Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru sawl gallu digidol newydd yn fyw neu'n dod ar-lein gan gynnwys porth rhoddwyr newydd, trawsnewidiad digidol llwyr o'r gwasanaeth trawsblannu a negeseuon testun cyswllt sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial gyda rhoddwyr gwaed i'w hysbysu ble mae eu rhodd wedi'i defnyddio. Mae partneriaeth newydd 20 mlynedd ar gyfer cyflenwi System Gyfrifiadurol y Sefydliad Gwaed gyffredinol wedi'i chaffael, gan gynnwys galluoedd digidol trawsnewid fel

Rheoli Perthynas â Rhoddwyr, a bwriedir iddi fynd yn fyw ar 27/28. Mae'r System Gwybodaeth Labordy genedlaethol (hefyd o fewn cwmpas Gwasanaeth Gwaed Cymru).

Mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet fel y'u nodir yn y Bwrdd Arweinyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg Cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymgysylltu'n llawn â datblygiad y Bensaernïaeth Targedau Cenedlaethol, mae'n defnyddio'r Adnodd Data Cenedlaethol yn weithredol (ac mae hefyd yn darparu cadeiryddion ar gyfer dau o'r grwpiau llywodraethu NDR). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ymgysylltu'n weithredol â thîm Ap y GIG ac yn canolbwyntio ar agor apwyntiadau ac atgyfeiriadau yn yr Ap. Mae Rhagnodi Electronig a Gweinyddu Meddyginiaethau ar y gweill, mewn cydweithrediad â Better Meds, a disgwylir iddo fynd yn fyw ym mis Hydref 2026.

Er bod yr ymdrech am Rhagoriaeth Ddigidol yn parhau'n gyflym, mae'r agenda ddigidol yn parhau i fod yn heriol mewn sawl maes sy'n cael eu cydnabod mewn risgiau lefel Ymddiriedolaeth. Mae capasiti a gallu'r tîm Gwasanaethau Digidol i gyflawni'r agenda ddigidol lawn wedi'u cyfyngu felly mae dewisiadau a blaenoriaethau yn parhau i fod yn angenrheidiol, ac mae diagnostig ar y gweill i fynd i'r afael â'r her hon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu, i raddau helaeth, ar gyflwyno Rhaglenni Cenedlaethol drwy Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac mae heriau o ran amserlen gyda'r Rhaglen Systemau Gwybodaeth Radioleg a'r System Rheoli Gwybodaeth Labordy y mae'r Ymddiriedolaeth yn ddibynnol arnynt. Mae Rhagoriaeth Ddigidol hefyd yn gofyn am dull integredig ar draws systemau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r Bensaernïaeth Targedau Cenedlaethol newydd wneud gwelliannau yn y maes hwn. Y maes olaf o her ddigidol i'r Ymddiriedolaeth yw Chwyddiant Digidol yng nghostau sylfaenol seilwaith a systemau y mae angen darparu ar eu cyfer mewn cynlluniau.

Mae perfformiad dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Gwasanaethau Digidol yr Ymddiriedolaeth yn olrhain yn erbyn targedau gyda'r digwyddiadau a'r ceisiadau yn parhau uwchlaw'r targed ers gweithredu'r Offeryn Rheoli Gwasanaethau TG newydd, Halo, yn llwyddiannus ym mis Medi 2024. Mae digwyddiadau mawr wedi cael eu gostwng i'w lefel isaf ers dwy flynedd, gyda chefnogaeth dda gan IGDC i leihau digwyddiadau ar gyfer y Ceisiadau Cenedlaethol.





Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Ymddiriedolaeth ar ôl cwblhau archwiliadau drwy'r Uned Seiberwydnwch a ffocws parhaus ar y Cynllun Gwella Seiber sy'n cael ei sicrhau ar lefel Pwyllgor y Bwrdd. Mae seilwaith etifeddol yn parhau i gael ei reoli i lawr, er y bydd yn dal i fod yn eitem gyfalaf allweddol ar gyfer cyfnod y strategaeth. Fel enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi cwblhau symud dros 95% o'r dyfeisiau o Windows 10 i 11, ymhell o flaen cyrff eraill GIG Cymru. Rhoddir ffocws parhaus hefyd ar addysgu staff gyda hyfforddiant statudol cyn y targed a chynhelir ymarferion efelychu Gwe-rwydo yn rheolaidd. Mae'r cynllun gwella hefyd yn cynnwys profi seiberwydnwch, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhan mewn ymarferion profi cenedlaethol.

Gan gydnabod nad technoleg yn unig yw Rhagoriaeth Ddigidol, yn gynharach eleni, cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth achrediad yn erbyn Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru a reolir gan Gymunedau Digidol Cymru. Roedd hyn yn garreg filltir arwyddocaol yn ei hymrwymiad i degwch digidol ac arloesi. Mae'r gydnabyddiaeth bwysig hon yn dathlu ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i ymgorffori cynhwysiant digidol ar draws pob lefel o'i sefydliad, o gynllunio strategol i ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Canmolodd Cymunedau Digidol Cymru ddull yr Ymddiriedolaeth fel "model o arfer gorau," gan dynnu sylw at ei huchelgais, ei harloesi, a'i hethos sy'n canolbwyntio ar bobl. Yr Ymddiriedolaeth bellach yw'r ail Fwrdd/Ymddiriedolaeth lechyd yng Nghymru i ennill yr achrediad hwn.



I grynhoi, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran darparu gwasanaethau digidol diogel, o ansawdd uchel, wedi'u cynllunio'n hygyrch ac sy'n

canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff, ac mae mewn sefyllfa dda i fanteisio ar offer digidol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, er mwyn galluogi Canolfan Ganser newydd Felindre yn ddigidol yn 2027 a chynnal y gadwyn gyflenwi gwaed ddiogel a sicr ar gyfer GIG Cymru.

4.8 Gwasanaethau Cynaliadwy

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Gynaliadwyedd gynhwysfawr sy'n cofleidio tri philer craidd cynaliadwyedd - amgylcheddol, ariannol, a chymdeithasol - ac yn priodoli i'r pedwerydd piler awgrymedig o gynaliadwyedd diwylliannol, gan gydnabod pwysigrwydd treftadaeth, creadigrwydd, a hunaniaeth gymunedol mewn iechyd a llesiant. Mae'r strategaeth yn sail i bob agwedd ar y gwaith i wella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd llwybrau triniaeth, gan gynnwys ystadau, offer, meddalwedd a rheoli llwybrau.

Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith gan y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd, sy'n nodi camau gweithredu ar draws addasu i'r hinsawdd, pobl, a thrawsnewid digidol, gan sicrhau alinio â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru fel y Cynllun Datgarboneiddio Strategol. Mae'r Cynllun wedi'i groesgyfeirio â Rhaglen Hefyd, sy'n hyrwyddo llesiant holistaidd trwy fentrau gan gynnwys y Celfyddydau mewn Iechyd, Rhagnodi Cymdeithasol Gwyrdd, a Jamborŷ Cynaliadwy, gan feithrin cysylltiadau rhwng gymuned, iechyd, diwylliant a natur.

Yn weithredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo modelau gofal arloesol fel Meddyginiaethau'n Nes at y Cartref, sy'n lleihau teithio cleifion ac allyriadau carbon cysylltiedig wrth wella cyfleustra a chydymffurfiaeth. Un o ddatblygiadau allweddol hyn oedd agor Uned Radiotherapi Felindre yn Nevill Hall, sy'n dod â thriniaeth arloesol yn agosach at gymunedau, gan leihau pellteroedd teithio i gleifion a chyfrannu at nodau datgarboneiddio. Mae mentrau clinigol eraill fel y newid o feddyginiaeth nivolumab mewnwythiennol i feddyginiaeth isgroenol wedi gweld gostyngiad mawr mewn gwastraff, gan leihau eitemau plastig untro o 96.07% (o 1194g o wastraff i 47g).

Mae trawsnewid digidol yn allweddol i alluogi'r uchelgeisiau hyn, gyda buddsoddiadau mewn meddalwedd a systemau data i optimeiddio rheoli llwybrau gofal, lleihau aneffeithlonrwydd, a chefnogi modelau gofal o bell. Eleni, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth y fenter Torri Papur Mawr, ymdrech i fonitro gweithgarwch argraffu adrannol a chydweithio â'r meysydd defnydd uchaf i leihau argraffu diangen. I gefnogi hyn, mae'r tîm cynaliadwyedd, y tîm digidol, a'r fferyllfa yn cydweithio i weithredu llofnodion rhithwir o fewn prosesau'r fferyllfa, gan leihau'r angen am bapur yn sylweddol a hyrwyddo nodau cynaliadwyedd yr Ymddiriedolaeth.


Mae Cynllunio Ystadau ac Ynni yr un mor hanfodol, gan sicrhau bod cyfleusterau'n effeithlon o ran ynni, yn wydn i risgiau hinsawdd, ac wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion gwasanaeth yn y dyfodol. Un ffocws mawr ar gynaliadwyedd eleni fu uwchraddio holl oleuadau'r Ymddiriedolaeth i LED, ynghyd â gosod synwryddion symud a golau dydd lle bo'n briodol. Mae'r rhaglen hon eisoes wedi'i chwblhau ym

mhencadlys yr Ymddiriedolaeth, gan gael effaith sylweddol ar y defnydd o drydan, sydd wedi gostwng 49% o'i gymharu â blwyddyn llinell sylfaen 2018/19 a'r flwyddyn lawn ddiweddaraf 2024/25.

Gan adeiladu ar hyn, mae Canolfan Ganser newydd Felindre yn ysbyty cwbl drydanol, y cyntaf yn y DU, gan ddileu'r defnydd o danwydd ffosil gydag ynni adnewyddadwy ar y safle a gosod meincnod newydd ar gyfer datgarboneiddio gofal iechyd. Ochr yn ochr â hynny, mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer y prif safle arall i gael gwared ar nwy, gyda'r nod o leihau ôl troed carbon yr Ymddiriedolaeth 70% yn seiliedig ar wybodaeth ddylunio gyfredol. Er mwyn cyflymu cynnydd ymhellach, mae astudiaethau dichonoldeb ynni adnewyddadwy yn cael eu cynnal ar draws pob safle, gyda'r nod o gael gwared ar ddibyniaeth ar nwy ac ymgorffori atebion ynni glân yn ein strategaeth ystadau.

4.9 Gofal yn Nes at y Cartref

Mae'r Gwasanaeth Canser yn cefnogi gofal yn nes at y cartref ac ar hyn o bryd yn rhoi'r dewis o 'ofal cartref' i gleifion lle mae hyn yn briodol yn glinigol. Mae cyflwyno gwasanaethau rhithwir, fel gwasanaeth Cleifion Asesu Rhithwir, yn darparu asesiadau cyn-SACT i gleifion sy'n cael cemotherapi. Cefnogir y gwasanaeth gan yr ap Keep Me Safe, sy'n caniatáu i gleifion wirio statws eu hiechyd a chyfathrebu â'r tîm clinigol cyn eu triniaeth nesaf. Y gweithgarwch cyfredol (blwyddyn ariannol 9 mis hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2025) yw 6,798 o apwyntiadau asesu cyn-SACT rhithwir (Y flwyddyn flaenorol, yr un cyfnod 9 mis = 5,233), twf o 30%. Mae'r gwasanaeth hwn wedi rhyddhau capasiti clinig ar gyfer y cleifion hynny sydd angen cael eu hasesiadau yn yr ysbyty yn glinigol.



Mae'r gwasanaeth Meddyginiaethau yn y Cartref yn parhau i ddangos twf cynaliadwy ar draws llwybrau geneuol a pharenterol, gyda chynnydd o 25% flwyddyn ar flwyddyn mewn cofrestru cleifion SACT geneuol ac ehangu cyson (sydd bellach yn sefydlog) yn Uned Gymorth Nantgarw yn dilyn cynnydd mewn dyddiau gwasanaeth. Mae trydydd darparwr gofal cartref, Healthnet Homecare, wedi cael ei dderbyn yn llwyddiannus, gan wella gwydnwch y gadwyn gyflenwi a chefnogi mudo esmwyth cleifion o ddarparwyr eraill. Mae ansawdd y gwasanaeth yn parhau'n uchel, heb unrhyw ddigwyddiadau clinigol wedi'u hadrodd ar draws gwasanaethau geneuol yn

ystod y 12 mis diwethaf a lefelau isel o ddigwyddiadau diogelwch cleifion o fewn Uned Gymorth Nantgarw, y mae'r rhain yn bennaf oherwydd ffitrwydd cleifion ar ddiwrnod y driniaeth. Mae arloesi parhaus, fel datblygu offer digidol, llwybrau gwasanaeth newydd (e.e., hunan-weinyddu Phesgo), a chyfundrefnau cyffuriau estynedig, yn sbarduno esblygiad gwasanaeth, tra bod prosiectau BI cydweithredol yn symleiddio gweithrediadau mewnol.

Fel enghraifft bellach, mae datblygiad hunan-weinyddu denosumab, cyffur therapi wedi'i dargedu, wedi galluogi cleifion â chanser y fron i hunan-weinyddu'r driniaeth hon gartref gan osgoi mynd i safle ysbyty. Dros y tymor hwy, bydd y gwasanaeth yn ehangu hunan-weinyddu i driniaethau isgroenol cymwys eraill, gan gynyddu nifer y cleifion a all gael mynediad at ofal yn nes at y cartref.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn gweithio'n weithredol gyda phartneriaid ar ddatblygiad parhaus cyfleoedd pellach i gefnogi cleifion sy'n derbyn monitro o bell er mwyn atal yr angen i fynychu/gael eu derbyn yn y Ganolfan Ganser.

4.10 Iechyd Menywod

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd Cynllun Iechyd Menywod Cymru a lanswyd ym mis Rhagfyr

2024. Dr Seema Arif, Ymgynghorydd Oncoleg yn Felindre, yw arweinydd clinigol y rhaglen genedlaethol hon.

Materion allweddol i'r Ymddiriedolaeth wrth gyfrannu at wella gofal iechyd i fenywod:

Gwasanaeth Gwaed

Mae Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Iechyd Gwaed GIG Cymru yn cael ei gyflawni, y mae rheoli anemia yn rhan o'i waith allweddol, ac mae bellach yn gweithio mewn aliniad â'r Cynllun Iechyd Menywod. Cyfraddau anemia ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth ddewisol fawr lle mae'r gyfradd achosion o anemia ddwywaith yn uwch mewn menywod nag mewn dynion (39% o'i gymharu â 19%). Mae'r ffrwd waith anemia yn cyd-fynd â phump o'r wyth maes blaenoriaeth, iechyd mislif, endometriosis ac adenomyosis, iechyd cyn beichiogi, y menopos a heneiddio'n dda.

Gwasanaethau Canser

Mae Cynllun Iechyd Menywod yn tynnu sylw at hynny, fel rhan o'r Rhaglen Adferiad Canser Genedlaethol, fel rhan o Ofal Wedi'i Gynllunio, ar y pum math o ganser gyda'r perfformiad amser aros cancer gwaethaf. Mae dau o'r pum math o ganser a ddewiswyd yn effeithio'n bennaf ar fenywod, (gynaecoleg a'r fron), yn ogystal ag anghydraddoldebau o ran canlyniadau hefyd yn y tri llwybr arall, (canser y croen, canser y llwybr gastroberfeddol isaf (GI) ac wroleg). Mae canlyniadau goroesi am flwyddyn i fenywod â chanser y bledren, er enghraifft, yn sylweddol is na dynion (75% o'i gymharu â 59%).

Mae hefyd yn tynnu sylw at effaith croestoriadedd a bregusrwydd, ar ganlyniadau mewn gofal canser a goroesiad. Mae ymchwil gyhoeddedig sy'n dangos bod mwy o groestoriadedd yn arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion o ran canser.

Agweddau Allweddol ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Canser ar gyfer Iechyd Menywod:

Atal Cenhedlu a Ffrwythlondeb

Trafodir manteision a risgiau triniaeth feddygol gyda'r claf cyn dechrau'r driniaeth. Fel arfer, ymgynghorydd y claf sy'n gwneud hyn, a bydd y claf yn cael adnoddau megis llyfrynnau Cymorth Canser MacMillan priodol a deunydd Ymchwil Canser y DU.

Menopos

Gwelir pob claf sy'n cael ei drin â radiotherapi pelfig a/neu bracitherapi mewn clinig dilynol dan arweiniad nyrsys 6 wythnos yn dilyn y driniaeth. Cynhelir profion proffil hormonau i nodi menopos cynamserol a achosir gan radiotherapi. Lle bo'n briodol, trafodir y defnydd o Therapi Amnewid Hormonau gyda'r claf. Ystyrir triniaethau amgen hefyd, yn enwedig yn achos cleifion canser yr endometriwm nad ydynt, fel arfer, yn gallu derbyn Therapi Amnewid Hormonau yn dilyn menopos a achosir gan radiotherapi. Mae dewisiadau amgen yn cynnwys meddyginiaeth gwrth-iselder, aciwbigo ac atchwanegiadau llysieuol.

Iechyd y Pelfis ac Anymataliaeth

Darperir mynediad i gleifion at wybodaeth ac arbenigedd arbenigol yn y clinig dilynol yn dilyn y driniaeth. Caiff goddefgarwch i driniaeth ei asesu'n weithredol a chaiff ymwybyddiaeth o wenwyndra posibl ei hamlygu. Caiff cleifion eu cyfeirio at wasanaethau canser eraill yn Felindre, er enghraifft, clinig gynaeolegol effeithiau hwyr, seicoleg glinigol, cymorth dieteteg, Maggie's.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu hyfforddiant ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws yr ymddiriedolaeth ac mae wedi nodi hyrwyddwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proses diogelwch rhywiol y GIG.

5. Cryfhau'r Sefydliad:

5.1 Cynllun Ariannol

Ym mis Medi 2025 (Mis 6) adroddodd yr Ymddiriedolaeth sefyllfa ariannol referniw a oedd wedi mantoli'r gyllideb hyd yma eleni, gyda sefyllfa alldro a ragwelir hyd at 31 Mawrth 2026 o fantoli'r gyllideb. Mae hyn yn unol â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd.

Yr heriau wrth gyflawni sefyllfa ariannol sy'n mantoli'r gyllideb yn 2025-26 ac i mewn i 2026-27 yw:

2025-26

- Ni chytunodd Comisiynwyr yr Ymddiriedolaeth ar unrhyw gyllid ychwanegol uwchlaw'r codiad cyffredinol o £1.5m (1.77%) yn 2025-26 a ddefnyddiwyd i gwmpasu pwysau costau chwyddiant a'r capasiti i drin rhan o'r galw anochel.
